

# Edrych ar ddatganoli darlledu: Sut y gall Cymru gael y cyfryngau y mae eu hangen arni?

Mawrth 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:  
**[www.senedd.cymru/SeneddDGCh](http://www.senedd.cymru/SeneddDGCh)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**  
E-bost: **[SeneddDGCh@senedd.wales](mailto:SeneddDGCh@senedd.wales)**  
Twitter: **[@SeneddDGCh](https://twitter.com/SeneddDGCh)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# **Edrych ar ddatganoli darlledu:**

Sut y gall Cymru gael y cyfryngau  
y mae eu hangen arni?

Mawrth 2021



# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:  
[www.senedd.cymru/SeneddDGCh](http://www.senedd.cymru/SeneddDGCh)

---

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Bethan Sayed AS**  
Plaid Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Mick Antoniw AS**  
Llafur Cymru



**John Griffiths AS**  
Llafur Cymru



**Carwyn Jones AS**  
Llafur Cymru



**Helen Mary Jones AS\***  
Plaid Cymru



**David Melding AS**  
Ceidwadwyr Cymreig

\*O 26 Chwefror 2020 tan 8 Ionawr 2021, Helen Mary Jones oedd Cadeirydd Dros Dro'r Pwyllgor.

---

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Delyth Jewell AS**  
Plaid Cymru

## Cynnwys

|                                                                                                                     |           |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------|
| <b>Rhagair y Cadeirydd .....</b>                                                                                    | <b>5</b>  |
| <b>Argymhellion .....</b>                                                                                           | <b>7</b>  |
| <b>1. Mae'r cynnwys sydd ar gael i Gymru ar y cyfryngau yn annigonol .....</b>                                      | <b>9</b>  |
| Nid yw'r twf mewn cynnwys byd-eang wedi arwain at dwf mewn cynnwys sy'n benodol i gynulleidfaoedd yng Nghymru ..... |           |
|                                                                                                                     | 9         |
| Ni fydd datganoli ar y teledu: mae'r diffyg mwyaf i'w weld yn y ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes.....       |           |
|                                                                                                                     | 13        |
| <b>2. Cyllid .....</b>                                                                                              | <b>19</b> |
| Ffi'r drwydded.....                                                                                                 |           |
|                                                                                                                     | 19        |
| Gwariant y BBC yng Nghymru, 2018-19 .....                                                                           |           |
|                                                                                                                     | 19        |
| Mae'r toriadau i S4C wedi bod "yn ddifrifol ac yn anghymesur" .....                                                 |           |
|                                                                                                                     | 26        |
| <b>3. Newid rheoliadol .....</b>                                                                                    | <b>31</b> |
| A yw Cymru'n cael digon o drwydded Sianel 3? .....                                                                  |           |
|                                                                                                                     | 31        |
| Cyfran y cynrychiadau rhwydwaith cymwys yng Nghymru, yn ôl darlledwr gwasanaeth cyhoeddus: 2015-2019 .....          |           |
|                                                                                                                     | 34        |
| Mae angen y pwerau ar Ofcom i sicrhau darpariaeth Gymraeg ar radio masnachol .....                                  |           |
|                                                                                                                     | 35        |
| Y farchnad fyd-eang: llywodraethu lleol neu fyd-eang?.....                                                          |           |
|                                                                                                                     | 38        |
| Y cwestiwn o ran Eastenders .....                                                                                   |           |
|                                                                                                                     | 40        |
| <b>4. Llais dros Gymru .....</b>                                                                                    | <b>45</b> |
| <b>Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar .....</b>                                                         | <b>51</b> |
| <b>Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig .....</b>                                                         | <b>53</b> |

---





## Rhagair y Cadeirydd

Mae'r cynnwys sydd ar gael i Gymru ar y cyfryngau yn annigonol. Nid oes gennym ni'r ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes y mae ei hangen ar Gymru, ac mae hyn yn amharu ar fywyd gwleidyddol a dinesig ein gwlad. Mae meysydd eraill, fel cynnwys ar gyfer plant, comedi a drama, hefyd wedi'u tangynrychioli, sy'n golygu nad ydym yn gweld adlewyrchiad o'n hunain ar ein sgriniau. Mae angen mwy o rym dros ddarlledu ar Gymru, er mwyn sicrhau y gallwn ddatblygu'r cyfryngau y mae eu hangen arnom fel cenedl.

Mae twf y cewri ffrydio byd-eang wedi arwain at gynnydd mawr o ran cynnwys. Ond nid yw wedi gwneud fawr ddim i ddarparu mwy o ddewis o raglenni sy'n portreadu bywydau pobl Cymru yn benodol. Er enghraifft, croesawyd y cyfleoedd hyfforddi a ddarparwyd i bobl leol yn sgil ffilmio'r ddrama Netflix 'Sex Education', ond nid yw'r rhaglen yn dweud dim am fywydau pobl yn Nyffryn Gwy neu'r lleoliadau eraill yn y De lle cafodd ei ffilmio. Efallai nad dyna oedd y bwriad, wrth gwrs. Ond serch hynny, mae hyn yn ei gwneud yn bwysicach fyth i ni fel cenedl benderfynu ar ein blaenoriaethau, cefnogi talent a chynrychiadau cartref, a dangos yr hyn y gall Cymru ei gyflawni ar lefel fyd-eang, o gwmnïau mawr fel Bad Wolf i Rondo Media, i Telesgop.

Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn adlewyrchu ac yn hyrwyddo ein bywydau ac yn creu sector cynhyrchu Cymreig ffyniannus. Mae'r dadleuon economaidd a diwylliannol canolog hyn dros ariannu darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn parhau, er gwaetha'r newid tuag at ddarparu ar-lein.

Rydym yn cychwyn ar gyfnod o newid seismig, wrth i rolau traddodiadol darlledu gwasanaeth cyhoeddus gael eu hailwerthuso yn sgil twf llwyfannau ffrydio ar-lein. Mae angen pwerau ar Gymru yn y maes hwn, gan fod anghenion cynulleidfaoedd Cymru yn unigryw.

Mae'r pwyllgor yn cytuno y dylai'r Senedd gael pwerau dros ddarlledu. Mae safbwyntiau'n amrywio ar y graddau y dylid datganoli ymhellach i wneud hynny, gyda rhai o blaid datganoli pwerau darlledu'n llawn i'r Senedd, ac eraill o blaid pwerau newydd mwy cyfyngedig mewn meysydd penodol. Mae'r adroddiad hwn ac adroddiadau blaenorol y Pwyllgor yn llywio'r safbwyntiau hyn, gan eu bod yn dangos nad oes gan Gymru y cyfryngau y mae eu hangen arni i weithredu fel cenedl lwyddiannus.

Gellid ystyried datganoli darlledu i Gymru fel proses yn hytrach na digwyddiad. Felly, yn hytrach na gofyn "a ddylid datganoli darlledu?", y cwestiynau mwyaf

perthnasol ym marn y Pwyllgor yw “i ba raddau y dylid datganoli darlledu?”, a “sut y gellir cryfhau llais Cymru yn y tirlun darlledu?”.

Erbyn hyn, mae gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd rywfaifaint o oruchwyliaeth gyfyngedig ac maent yn chwarae rôl wrth wneud penodiadau cyhoeddus ym maes darlledu, o benodi aelodau i fyrddau Ofcom a'r BBC, i graffu ar ein darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r Pwyllgor yn credu pe bai gan Gymru fwy o gyfrifoldeb dros ddarlledu y gellir sicrhau gwelliannau i gynulleidfaoedd. Amlinellir y gwelliannau hynny yn yr adroddiad hwn, ac maent yn cynnwys pwerau dros ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn Gymraeg, dylanwad ar bennu ffi'r drwydded a llais wrth bennu amodau'r drwydded Sianel 3 (sydd o dan ofal ITV ar hyn o bryd).

Rydym hefyd wedi nodi nifer o newidiadau rheoleiddio a fyddai'n gwella'r cyfryngau yng Nghymru. Mae'r argymhellion hyn wedi'u cyfeirio'n bennaf at y corff sy'n gyfrifol ar hyn o bryd am arfer y swyddogaeth honno. Felly, er enghraifft, rydym wedi galw am bŵer i'w gwneud yn ofynnol cynnwys deunydd Cymraeg mewn trwyddedau radio masnachol, ac i gynnwys gofynion cynhyrchu lleol yn y drwydded Sianel 3 nesaf. Wrth ddatganoli pwerau i Gymru, byddai'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn berthnasol i'r corff perthnasol yng Nghymru a fyddai'n gyfrifol am y pwerau rheoleiddio darlledu hynny.

Mae teimlad cyffredinol bod y cynnwys sydd ar gael i Gymru ar y cyfryngau yn annigonol. Mae cyfrifoldeb ar bob un ohonom i gynnig syniadau ymarferol i fynd i'r afael â'r diffyg hwn. Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn fan cychwyn yn hyn o beth.

## **Bethan Sayed MS**

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu



## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Barn y Pwyllgor yw y byddai rhoi mwy o gyfrifoldebau darlledu i'r Senedd a Llywodraeth Cymru yn gwella darpariaeth y cyfryngau yng Nghymru yn sylweddol. Dylai Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU ac Ofcom nodi sut y gellir gwella'r cynnwys a ddarperir ar y cyfryngau i gynulleidfaoedd yng Nghymru.

..... Tudalen 18

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa ganolog barhaus i gefnogi newyddiaduraeth newyddion sy'n atebol ac sy'n cael ei darparu o hyd braich er mwyn sicrhau didueddrwydd..... Tudalen 18

**Argymhelliad 3.** Yn unol â'r trefniadau presennol, hoffem weld comisiwn ariannu annibynnol yn cael ei sefydlu â chynrychiolaeth benodol o Gymru. Dylai'r penderfyniadau a wneir gan gorff o'r fath fod yn destun cydsyniad gan gynrychiolwyr o holl wledydd y DU. Dylai'r aelodau o Gymru ar y comisiwn gael eu penodi gan Lywodraeth Cymru, ac yna dylid cael gwrandawriad cadarnhau gerbron un o bwylgorau priodol y Senedd.....Tudalen 30

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth y DU ddatganoli pwerau dros S4C a materion eraill sy'n ymwneud â darlledu gwasanaeth cyhoeddus iaith Gymraeg i Gymru. ....Tudalen 30

**Argymhelliad 5.** Dylai fod gofyniad bod y drwydded Sianel 3 yng Nghymru yn cynhyrchu cyfran fwy o gynnwys rhwydwaith yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru gael rôl ffurfiol yn y broses hon..... Tudalen 43

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth y DU ddeddfu i alluogi corff rheoleiddio priodol i'w gwneud yn ofynnol bod deiliaid trwyddedau radio masnachol yng Nghymru yn darlledu cynnwys iaith Gymraeg, ynghyd â chyflwyno categori rheoliadol ar gyfer "newyddion Cymru gyfan". Dylai Llywodraeth Cymru chwarae rôl ffurfiol wrth bennu'r gofynion hyn..... Tudalen 43

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth y DU reoleiddio gwasanaethau ffrydio byd-eang i gryfhau'r ecosystem cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Gallai rheoleiddio o'r fath gynnwys ardollau i ariannu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus, neu ofynion i ddarlledu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus. Dylai Llywodraeth y DU ystyried ymestyn ardollau i gynnwys cwmnïau ar-lein mawr eraill, fel peiriannau chwilio a safleoedd rhwydweithio cymdeithasol..... Tudalen 43

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Chweched Senedd gynnwys pwyllgor sy'n trafod polisi'r cyfryngau fel rhan ganolog o'i gylch gwaith. Dylai'r pwyllgor hwn gynnal gwrandawiadau cadarnhau, mewn cyfarfodydd ar y cyd â phwyllgorau perthnasol San Steffan os bydd angen, ynghyd â'r aelodo fwrdd Ofcom dros Gymru, aelod bwrdd y BBC yng Nghymru a chadeirydd bwrdd S4C. Dylai ei raglen waith gynnwys craffu ar y cyrff hyn yn barhaus, yn ogystal â darlledwyr eraill, gan gynnwys deiliad y drwydded Sianel 3. Wrth i ragor o bwerau darlledu gael eu datganoli i'r Senedd, gallai'r pwyllgor hwn hefyd chwarae rhan yn y gwaith o reoleiddio ac ariannu darpariaeth y cyfryngau. .... Tudalen 49

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru gael rôl ehangach wrth bennu telerau'r drwydded Sianel 3 nesaf i Gymru..... Tudalen 50

**Argymhelliad 10.** Dylai'r BBC ddarparu fforwm olynol sy'n gwella ar y Cyngorau Cynulleidfa, fel lle i gasglu barn cynulleidfaoedd yng Nghymru a chyfrannu at ddatblygu polisi'r BBC..... Tudalen 50

## 1. Mae'r cynnwys sydd ar gael i Gymru ar y cyfryngau yn annigonol

Nid yw'r twf mewn cynnwys byd-eang wedi arwain at dwf mewn cynnwys sy'n benodol i Gymru, a dim ond manteision economaidd cyfyngedig y mae'n ei gynnig i gwmnïau cynhyrchu yng Nghymru.

### Nid yw'r twf mewn cynnwys byd-eang wedi arwain at dwf mewn cynnwys sy'n benodol i gynulleidfaoedd yng Nghymru

1. Wrth ystyried pa fodel llywodraethu sydd orau i Gymru, mae'n rhaid inni ystyried natur darlledu sy'n globaleiddio'n gyflym. Mae'r diwydiant mewn cyfnod o drawsnewid sylweddol. Mae gwylwyr yn ymateb i'r cynnydd enfawr yn y dewis sydd ar gael ar y cyfryngau drwy symud i ffwrdd o deledu a ddarlledwyd yn draddodiadol i wasanaethau fideo ar alw drwy danysgrifio fel Netflix ac Amazon Prime.

2. Pan lansiwyd S4C ym 1982 roedd yn un o bedair sianel deledu a oedd ar gael yng Nghymru. Erbyn hyn, mae'n un o 70 o sianeli Freeview, heb sôn am y sianeli sydd ar gael drwy becynnau tanysgrifio, a gwasanaethau ar-lein yn unig fel Netflix. Mae effaith tarfu digidol ar y cyfryngau darlledu wedi arwain at:

- Ostyngiad yng nghyrraethiad yr holl brif sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus.
- Gostyngiad yng nghyfran yr amser sy'n cael ei dreulio yn gwyllo teledu a ddarlledir, yn enwedig gan bobl ifanc. O ran y fideos a wylwyd gan bobl 16-34 oed yn 2018, dim ond 42 y cant ohonynt oedd yn ddeunydd a ddarlledwyd.<sup>1</sup>
- Twf cyflym o ran y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau fideo ar alw drwy danysgrifio. Rhwng 2015 a 2018, dyblodd nifer y cartrefi yn y DU sydd â mynediad at wasanaeth fideo ar alw drwy danysgrifio. Roedd gan 54 y

---


<sup>1</sup> Defnyddiwyd y ffigur hwn, o adroddiad Cyfryngau'r Genedl Ofcom yn 2019, am fod y ffigur cyfatebol yn adroddiad 2020 yn cyfeirio at Ebrill 2020, pan roedd y DU mewn cyfnod clo, ac felly mae'n annhebygol o gynrychioli'r tueddiadau ehangach. Byddai tuedd gyffredinol y shift o wyllo darllediadau i wyllo ar alw yn awgrymu bod y ffigur o 42 y cant wedi gostwng erbyn hyn.

cant o aelwydydd yng Nghymru fynediad at wasanaeth o'r fath ddechrau 2020.<sup>2</sup>

- Twf enfawr yng nghyllidebau cynnwys cwmnïau fideo ar alw drwy danysgrifio. Yn ôl pob sôn, mae Netflix ac Amazon yn gwario cymaint â £15 miliwn yr awr, o gymharu â thariff dangosol y BBC o £1 miliwn yr awr ar gyfer dramâu premiwm.<sup>3</sup>

**3.** Lansiodd y BBC yr iPlayer yn 2007. Ers hynny, mae llawer wedi rhagweld tranc "teledu llinol" (h.y. teledu sy'n cael ei wyllo wrth iddo gael ei ddarlledu). Fodd bynnag, er gwaethaf symudiad mawr tuag at wasanaethau nad ydynt yn llinol – gan gynnwys gwyllo teledu a ddarlledwyd yn draddodiadol ar alw – mae'r rhan fwyaf o deledu yn dal i gael ei wyllo pan gaiff ei ddarlledu.

### **Cyfanswm y munudau bob diwrnod y mae'r holl ddefnyddwyr dros 16 oed yn eu treulio'n gwyllo fideos: y DU, 2018**



Ffynhonnell: Cyfryngau'r Genedl Ofcom 2019

**4.** Ar un lefel, mae twf gwasanaethau fideo ar alw drwy danysgrifio yn gyfystyr â thwf o ran dewis i'r defnyddiwr, yn aml ar ffurf cynnwys drudfawr o safon uchel. Serch hynny, wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd y darlithydd cyfryngau, Dr

<sup>2</sup> Daw'r ffigurau hyn o adroddiad Cyfryngau'r Genedl Ofcom 2019 ac adroddiad Cyfryngau'r Genedl Ofcom 2020

<sup>3</sup> Pwyllgor Cyfathrebu a Materion Digidol Tŷ'r Arglwyddi, Public service broadcasting in the age of video on demand

Catriona Noonan, mai myth yw'r syniad o ddewis o ran cynnwys fideo, sydd i bob pwrpas wedi'i gyfyngu yn ôl genre a hygyrchedd:

Particularly in Wales, I think there's an interesting dynamic around this idea of choice. Yes, we have lots and lots of tv drama. I could spend all day, every day watching new, high-quality tv drama, and I can watch it across a lot of different services, but, actually, if you look at other genres, for instance, one of the other things that I look at is arts content, there's less choice—less choice of UK, original content. So, there are areas of abundance and there are areas where I think that we're having restrictions, but often they get lost in the mix.

And the second thing I would say about choice is that to have this entirety—. For a Welsh audience to have the entirety of choices available, you have to have very deep pockets.<sup>4</sup>

**5.** Esboniodd Huw Jones, cyn-Gadeirydd bwrdd S4C, nad yw'r twf mewn cynnwys yn gyffredinol wedi arwain at dwf mewn cynnwys Cymraeg. Ar yr un pryd, mae wedi creu pwysau ychwanegol i'r rheini sy'n creu cynnwys Cymraeg:

Yn groes i beth sydd wedi digwydd yn yr iaith Saesneg, does yna ddim cynnydd mewn cynnyrch masnachol ar gyfer y Gymraeg, oherwydd cost teledu a chynnyrch clyweledol, yna dydy'r farchnad ddim yn darparu deunydd Cymraeg. Ac mae'n rhaid i rywun wedyn bryderu bod y gwasgu yma ar y cyllid sydd ar gael i gynhyrchu deunydd newydd yn Gymraeg yn digwydd ar yr un pryd ag y mae'r dewis sydd ar gael yn Saesneg, o bob ffynhonnell, wedi cynyddu yn aruthrol.<sup>5</sup>

**6.** Mae newyddion yn genre arall nad yw'r cwmnïau ffrydio byd-eang wedi'i ddarparu, hyd yn hyn. Fel y dywedodd Hywel William o Bwyllgor Cyngori Ofcom:

Dwi ddim yn credu bod unrhyw sôn o gwbl gan Netflix y byddant yn darparu newyddion a materion cyfoes am Gymru. Dyw hwnna jest ddim yn mynd i ddigwydd. Mae'n amlwg mai dyna beth fyddai rôl y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sydd gyda ni, i wneud hynny.<sup>6</sup>

**7.** Nododd yr Athro Diwydiannau Creadigol Ruth McElroy fod cynrychiadau fideo ar alw drwy danysgrifio a saethwyd yng Nghymru wedi sicrhau manteision

---

<sup>4</sup> Paragraff 133, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 20 Tachwedd 2019

<sup>5</sup> Paragraff 13, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Mawrth 2020

<sup>6</sup> Paragraff 18, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 20 Tachwedd 2019

economaid, ond nid diwylliannol. Mae Sex Education ar Netflix, er enghraifft, yn cael ei ffilmio mewn amryw leoliadau yn y De, ond nododd:

There is no clear cultural representational value to that programme. However, it did give us an opportunity for some of the young people, who mostly come from the south Wales Valleys, [...] before they'd even graduated, to work on a Netflix production, which in terms of their CVs is really important.<sup>7</sup>

**8.** Er hynny, o ran ffrydiau refeniw hirdymor cwmnïau cynhyrchu annibynnol, roedd hi'n teimlo bod yna broblem wirioneddol.<sup>8</sup> Nododd y Dr Noonan nad yw'r rhan fwyaf o gwmnïau cynhyrchu annibynnol yng Nghymru yn ddigon mawr i weithio gyda'r cewri ffrydio byd-eang. At hynny, teimlai fod modelau busnes gwasanaethau fideo ar alw drwy danysgrifio yn cyfyngu i ba raddau y maent yn cynnig manteision i gwmnïau cynhyrchu annibynnol mewn tair prif ffordd:

The first one is the rights, about how they buy the rights and how they buy the rights internationally. So, if you do find yourself having a success, you're not able to leverage that value across multiple markets. The second one is, from my knowledge, the independent sector rarely gets any information about how content has performed. And that's a really important resource in terms of being able to determine market value. [...]

And then [...] the third one, what the Lords started pointing to is an overheating—that there's an inflation of the costs and demands on talent. The thing about that third one, though, is we can do something about that in terms of training and development, as we've said. So, I think there are risks with independent production companies working with the SVODs and I think that there are certain ways that we can mitigate some of those risks, but a lot of them are just because they aren't accountable in the way that public service broadcasters are, and we talked about that at the beginning.<sup>9</sup>

**9.** Tynnodd Kevin Bakhurst o Ofcom sylw at y cynnydd sylweddol mewn cynyrchiadau a arweiniwyd gan y cwmnïau ffrydio byd-eang, a'r cyfleoedd i wneud cynyrchiadau ar raddfa fawr yng Nghymru:

---

<sup>7</sup> Paragraff 221, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 20 Tachwedd 2019

<sup>8</sup> Paragraff 222, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 20 Tachwedd 2019

<sup>9</sup> Paragraffau 224-225, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 20 Tachwedd 2019



There is an incredible enthusiasm amongst some of the really big companies [...] to produce in the UK, and there are some centres of excellence, and actually, Wales is clearly a centre of excellence for drama and high-end drama. [...] And in fact, their ambition to work in the UK is often only limited by the amount of studio space available and talent available.<sup>10</sup>

## Ni fydd datganoli ar y teledu: mae'r diffyg mwyaf i'w weld yn y ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes

**10.** Yn yr ymatebion i ymgynghoriad y Pwyllgor a'r dystiolaeth lafar, mynegwyd teimlad cyffredinol bod y cynnwys sydd ar gael i Gymru ar y cyfryngau yn annigonol. Crynhodd Martyn Ingram, o'r cwmni cynhyrchu Wales and Co, y sefyllfa:

The market does not, for me, supply Wales with what it needs, and that is across the whole media. [...] So, I think there is a real sense for intervention in the market, as much as you can, and that has to be through some form of regulatory procedure.<sup>11</sup>

**11.** Y ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes oedd y diffyg mwyaf a nodwyd. Roedd Angharad Mair yn cynrychioli'r Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol, sef grŵp gwirfoddol a sefydlwyd i ystyried dyfodol darlledu yng Nghymru. Dyma a ddywedodd wrth y Pwyllgor:

Dwi ddim yn gwybod sut mae pobl Cymru yn cael eu newyddion. Does yna ddim digon o raglenni materion cyfoes. Does yna ddim digon o raglenni trafodaeth, yn enwedig yn Saesneg.<sup>12</sup>

**12.** Roedd rhai o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad yn cyfeirio hefyd at wendidau eraill yn narpariaeth y cyfryngau ar gyfer cynulleidfaoedd Cymru. Er enghraifft, nododd Mudiad Meithrin (sy'n darparu gofal blynyddoedd cynnar ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector gwirfoddol) fod prinder rhaglenni plant, gan nodi bod "plant Cymru sydd yn gwylio CBeebies yn derbyn rhaglenni heb unrhyw gyfeiriad at iaith, diwylliant, gwead cymunedol na daearyddiaeth Cymru".<sup>13</sup>

**13.** Wrth ymateb i'r sylw hwn, dywedodd Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr BBC Cymru, nad oes yna "ddim hanes gan y BBC yng Nghymru o ran diwallu cynnwys i

---

<sup>10</sup> Paragraff 29, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 20 Tachwedd 2019

<sup>11</sup> Paragraff 140, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mawrth 2020

<sup>12</sup> Paragraff 13, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mawrth 2020

<sup>13</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Mudiad Meithrin

blant” a bod yna “gyfle yn fanna, a dwi’n meddwl bod yna bwynt teg yn y feirniadaeth”.<sup>14</sup>

**14.** Mae academyddion ym Mhrifysgol Caerdydd wedi cynnal gwaith ymchwil, a gomisiynwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC ac Ofcom yn bennaf, ynghylch sut mae darlledwyr rhwydwaith yn cyflwyno adroddiadau ar faterion datganoledig. Crynhodd yr Athro Justin Lewis ganfyddiadau’r gwaith hwn yn ei ymateb i’r ymgynghoriad:

- Ar draws holl ddarlledwyr newyddion rhwydwaith y DU, mae sylw i faterion datganoledig yn dal i ganolbwyntio’n helaeth ar Loegr.
- Felly, ni all cynulleidfaoedd yn y cenhedloedd datganoledig ddibynnu ar newyddion rhwydwaith i roi sylw i faterion o bwys fel iechyd ac addysg.
- I raddau helaeth, nid yw darlledwyr wedi achub ar y cyfleoedd yn sgil datganoli i gymharu a chyferbynnu dulliau polisi ar draws pedair gwlad y DU.<sup>15</sup>

**15.** Defnyddiwyd gwaith ymchwil Prifysgol Caerdydd i lywio Adroddiad King ar gyfer y BBC ar y sylw a roddwyd i bedair gwlad y DU ar newyddion rhwydwaith a rhaglenni materion cyfoes y BBC yn 2008. Canfu astudiaeth ddilynol fod darpariaeth newyddion y BBC wedi newid i ddod yn fwy cywir, a’i fod yn adlewyrchu gwleidyddiaeth y DU ar ôl datganoli yn well.

**16.** Mae’r pandemig wedi gwneud y diffyg newyddion yng Nghymru yn fwy amlwg. Yn ein hadroddiad ar Effaith argyfwng COVID-19 ar newyddiaduraeth a’r cyfryngau lleol (Medi 2020), nododd y Pwyllgor:

Mae’r gwahaniaethau ym mesurau’r cyfyngiadau symud ar draws y DU wedi cyfrannu i gynnydd mewn ymwybyddiaeth o ddatganoli, ond mae darparwyr newyddion y DU yn aml wedi cyhoeddi gwybodaeth sy’n adrodd yn anghywir ar faterion sydd wedi’u datganoli i Gymru. Mae camwybodaeth yn niweidiol i ddemocratiaeth yng Nghymru ar yr adeg orau ond, yn ystod yr argyfwng presennol, mae’n tanseilio ymdrechion i fynd i’r afael â’r clefyd yng Nghymru.<sup>16</sup>

---

<sup>14</sup> Paragraff 159, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 22 Ionawr 2020

<sup>15</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig yr Athro Justin Lewis

<sup>16</sup> Tudalen 15, Effaith argyfwng COVID-19 ar newyddiaduraeth a’r cyfryngau lleol

**17.** Drwy gydol y Senedd hon, mae'r Pwyllgor hwn wedi cyflawni darnau o waith sydd wedi nodi diffygion yng nghynnwys y cyfryngau i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Yn 2018, dywedodd y Pwyllgor fod dirywiad newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru "yn fater polisi cyhoeddus dwys, y mae angen i wneuthurwyr polisi ar bob lefel, yn enwedig Llywodraeth Cymru, fynd i'r afael ag ef fel mater o flaenoriaeth".<sup>17</sup>
- Yn 2017 dywedodd y Pwyllgor y dylai'r BBC "ddarparu £30 miliwn ychwanegol bob blwyddyn ar gyfer dramâu Saesneg a darllediadau am Gymru".<sup>18</sup> Ers hynny mae'r BBC wedi ymrwymo i fuddsoddi £8.5 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol mewn rhaglenni Saesneg i Gymru.
- Yn 2017 dywedodd y Pwyllgor fod toriadau mewn cyllid ar gyfer y darlledwr Cymraeg S4C "wedi bod yn ddifrifol ac yn anghymesur" ac yn cael "effaith barhaol a difrifol ar ei gallu i ddarparu ei gwasanaeth".<sup>19</sup>
- Yn 2017 dywedodd y Pwyllgor nad yw'r "dull laissez-faire a ddisgrifiwyd gan ITV Cymru wedi arwain at leisiau Cymreig yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ar rwydwaith ITV. Mae dull y sianel o gomisiynu wedi methu â dal cyfoeth cymunedau Cymru ac mae agweddau sylweddol o fywyd Cymru nad ydynt yn cael eu portreadu naill ai ar rwydwaith ITV neu ar ITV Cymru."<sup>20</sup>
- Yn 2018 galwodd y Pwyllgor ar Lywodraeth y DU i ystyried cyflwyno gofyniad rheoliadol i orsafoedd radio masnachol yng Nghymru adrodd ar newyddion Cymreig ei natur, yn ogystal â newyddion lleol a newyddion y DU fel rhan o'i diwygiadau ar gyfer radio masnachol. Yn yr un adroddiad galwodd ar y BBC i ystyried yr opsiynau i alluogi Cymru i optio allan o wasanaethau radio rhwydwaith. Ni chafodd y naill na'r llall o'r argymhellion eu gweithredu.<sup>21</sup>

---

<sup>17</sup> Y penawdau: Ymchwiliad i Newyddiaduraeth Newyddion yng Nghymru, Mai 2018  
<https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld11544/cr-ld11544-w.pdf>

<sup>18</sup> Y darlun mawr: Safbwyntiau cychwynnol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru, Chwefror 2017  
<https://senedd.cymru/laid%20documents/cr-ld10916/cr-ld10916-w.pdf>

<sup>19</sup> Tu Allan i'r Bocs: Dyfodol S4C, Awst 2017 <https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld11157/cr-ld11157-w.pdf>

<sup>20</sup> Y darlun mawr: Safbwyntiau cychwynnol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru, Chwefror 2017  
<https://senedd.cymru/laid%20documents/cr-ld10916/cr-ld10916-w.pdf>

<sup>21</sup> Ar yr un donfedd: Ymchwiliad i Radio yng Nghymru, Rhagfyr 2018  
<https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld11993/cr-ld11993-w.pdf>

- Yn 2019 galwodd y Pwyllgor ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth ffilmiau a fyddai, ymysg pethau eraill, yn “cefnogi cynyrchiadau Cymraeg a chynyrchiadau eraill sy’n amlwg yn Gymreig gyda’r bwriad o gynyddu amlygrwydd iaith a diwylliant Cymru ar y llwyfan rhyngwladol”.<sup>22</sup>

**18.** Roedd Colin Nosworthy, o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, yn teimlo bod canlyniadau difrifol i’r diffyg darpariaeth newyddion, gan ddweud wrth y Pwyllgor:

Dwi’n meddwl bod y diffyg gwybodaeth ynglŷn â phwy sy’n gwneud y penderfyniad mor ddifrifol eich bod chi mewn perygl o fygwth bodolaeth democratiaeth yng Nghymru.<sup>23</sup>

**19.** Nododd Kevin Bakhurst o Ofcom fod cynulleidfaoedd Cymru yn teimlo y dylai’r BBC wella’i chynrychiolaeth a’i phortread o fywyd Cymru:

One of the really important things where we’ve said the BBC needs to do better is about representing and portraying the peoples of the United Kingdom, and also to the rest of the United Kingdom and to themselves. We know, from our research about audiences in Wales, that that’s one area in particular that the audience in Wales thinks the BBC needs to do a bit better on.<sup>24</sup>

## **Ein barn ni**

Mae’r Pwyllgor yn unfryd bod **y cynnwys sydd ar gael i Gymru ar y cyfryngau yn annigonol**. Mae twf safleoedd ffrydio byd-eang enfawr wedi arwain at gynydd mawr o ran cynnwys, ond dim ond mewn genres cyfyngedig. Nid yw wedi gwneud llawer, os o gwbl, i ddarparu mwy o gynnwys yn benodol ar gyfer cynulleidfaoedd Cymru.

Mae’r manteision economaidd a ddaw yn sgil cynhyrchu mwy o gynnwys fideo ar alw drwy danysgrifio i’w croesawu, ond yn gyfyngedig. Nid yw’n glir faint o gwmnïau cynhyrchu o Gymru sy’n ddigon mawr i weithio gyda’r cewri byd-eang hyn. O’r rheini sy’n ddigon mawr, nid oes ganddynt lawer o fynediad at ddata – ffigurau ffrydio, er enghraifft – i roi’r wybodaeth am y farchnad sydd ei hangen arnynt i ffynnu yn y byd newydd hwn.

---

<sup>22</sup> Ymchwiliad i gynyrchiadau ffilm a theledu mawr yng Nghymru, Mai 2019  
<https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld12524/cr-ld12524-w.pdf>

<sup>23</sup> Paragraff 164, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Mawrth 2020

<sup>24</sup> Paragraff 41, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 20 Tachwedd 2019

Yn 2019 cyhoeddodd Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Gyfathrebu a Materion Digidol ei adroddiad Public service broadcasting: vital as ever. Rydym yn ategu ei gasgliad canolog, sef bod darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal yn hanfodol. **Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn darparu cynnwys diwylliannol hanfodol nad yw ar gael drwy'r farchnad agored.** Mae'r cynnydd mewn gwasanaethau ffrydio byd-eang i'w groesawu fel ychwanegiad at gynnwys gwasanaeth cyhoeddus, ond nid yw'n gwneud dim i newid y ddeinameg sylfaenol hon.

Yn yr un modd, darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, sy'n gweithio ar y cyd â chwmnïau cynhyrchu, yw sylfaen y diwydiannau sgrin yng Nghymru. Er ein bod yn croesawu y manteision economaidd yn sgil, er enghraifft, Sex Education gan Netflix, nid ydym wedi gweld unrhyw beth i awgrymu y gall cwmnïau ffrydio enfawr ddisodli'r rôl hon.

Mae angen mesur effaith darlledwyr yng Nghymru, y rhai sy'n darparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus a chynnwys masnachol, nid yn unig o ran eu gwariant, ond hefyd y graddau y maent yn diwallu anghenion pobl Cymru, gan gynnwys adlewyrchu straeon o holl gymunedau Cymru, gan hyrwyddo'r Gymraeg, ac atgyfnerthu democratiaeth Cymru.

Yn sgil ein hymchwiliad, gwelwyd **anfodlonrwydd eang â'r cynnwys sydd ar gael i gynulleidfaoedd Cymru ar y cyfryngau.** Cynnwys newyddion a materion cyfoes oedd y diffyg mwyaf a nodwyd. Rydym yn cytuno â'r dadansoddiad hwn, o gofio'r rôl hanfodol y mae'r cynnwys hwn yn ei chwarae mewn democratiaeth weithredol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym ei bod yn barod i ystyried buddsoddi yn y maes hwn. Rydym yn croesawu'r newid safbwynt hwn yn fawr, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu cronfa ganolog barhaus i gefnogi newyddiaduraeth newyddion sy'n atebol ac sy'n cael ei darparu o hyd braich er mwyn sicrhau didueddrwydd.

Dylid hefyd sicrhau bod pwyllgor olynol yn y Chweched Senedd yn ymwybodol o waith y Llywydd yn y maes hwn, yn dilyn llythyr at y Pwyllgor hwn yn nodi ei bod yn awyddus i Gomisiwn y Senedd geisio mynd i'r afael â'r diffyg democrataidd.

Ond mae Cymru yn fwy na democratiaeth yn unig, ac mae angen cynrychioli agweddau eraill ar fywyd yn ein cyfryngau. Rydym yn ddiolchgar i Mudiad Meithrin am dynnu sylw at brinder rhaglenni plant, ac i Rhodri Talfan Davies o BBC Cymru am ymrwymo i edrych ar y mater hwn.

Yn ystod y Senedd hon, mae Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wedi tynnu sylw at nifer o feysydd lle mae'r cyfryngau yn gwasanaethu Cymru yn wael, gan gynnwys darparwyr teledu, radio a newyddion; cynnwys newyddion a mathau eraill o gynnwys; ac yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae canfyddiadau'r ymchwiliad hwn yn awgrymu bod cynulleidfaoedd Cymru yn rhannu'r farn hon.

**Argymhelliad 1.** Barn y Pwyllgor yw y byddai rhoi mwy o gyfrifoldebau darlledu i'r Senedd a Llywodraeth Cymru yn gwella darpariaeth y cyfryngau yng Nghymru yn sylweddol. Dylai Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU ac Ofcom nodi sut y gellir gwella'r cynnwys a ddarperir ar y cyfryngau i gynulleidfaoedd yng Nghymru.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa ganolog barhaus i gefnogi newyddiaduraeth newyddion sy'n atebol ac sy'n cael ei darparu o hyd braich er mwyn sicrhau didueddrwydd.

## 2. Cyllid

Nid yw Cymru wedi cael budd o'r system bresennol ar gyfer pennu cyllid ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus, lle mae Llywodraeth y DU yn gwneud penderfyniadau yn unochrog heb fawr ddim goruchwyliaeth ddemocrataidd.

### Ffi'r drwydded

**20.** Ariennir y BBC drwy ffi'r drwydded, sy'n daladwy – gydag eithriadau – gan unrhyw un sydd am wyllo rhaglenni ar-lein neu ar wasanaeth teledu ar-lein. Defnyddir y mecanwaith hwn, yn hytrach nag, er enghraifft, cyllid drwy wasanaeth tanysgrifio neu dreth, â'r bwriad o ddiogelu annibyniaeth y BBC ar y llywodraeth a'r farchnad. Ers 2013, mae'r rhan fwyaf o gyllid S4C hefyd wedi dod o ffi'r drwydded. Disgwylir i S4C gael ei hariannu'n llwyr drwy ffi'r drwydded o ddechrau setliad nesaf ffi'r drwydded yn 2022.

**21.** Nid yw'n hysbys faint yn union o refeniw a godir yng Nghymru drwy ffi'r drwydded, ond yn ei dystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn, amcangyfrifodd y BBC fod £184 miliwn, allan o ffigur cyfanswm y DU, sef £3,690 miliwn, yn cael ei gasglu yng Nghymru.

**22.** Darparodd y BBC y dadansoddiad a ganlyn o'i wariant yng Nghymru:

#### Gwariant y BBC yng Nghymru, 2018-19

|                                     | 2018/19 (fm) |
|-------------------------------------|--------------|
| Cynnwys rhwydwaith                  |              |
| Teledu                              | 49           |
| Radio                               | 3            |
| Ar-lein a'r Botwm Coch              | 1            |
| <b>Cyfanswm gwariant rhwydwaith</b> | <b>53</b>    |
| Cynnwys lleol                       |              |
| Teledu - BBC One                    | 25           |
| Teledu - BBC Two                    | 8            |



|                                  | 2018/19 (fm) |
|----------------------------------|--------------|
| Radio Wales                      | 15           |
| Radio Cymru                      | 14           |
| Ar-lein a'r botwm each           | 11           |
| <b>Cyfanswm y gwariant lleol</b> | <b>73</b>    |
| Cerddorfa Genedlaethol Gymreig   | 5            |
| S4C ( Rhaglenni BBC Cymru)       | 22           |
| Datblygu                         | 1            |
| Dosbarthu                        | 25           |
| <b>Cyfanswm</b>                  | <b>179</b>   |

Ffynhonnell: Ymateb y BBC i ymchwiliad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i Ddatganoli Darlledu, 2019

**23.** Yn yr un flwyddyn (2018-19), cafodd S4C £74.5 miliwn o gyllid a gasglwyd drwy ffi'r drwydded. Mae hynny'n awgrymu y gwariwyd cyfanswm o £253.5 miliwn yng Nghymru a gasglwyd drwy ffi'r drwydded, sef £69.5 miliwn yn fwy nag amcangyfrif y BBC o'r hyn a gasglwyd yng Nghymru. Foddbynnag, mae'r cyfrifiad hwn yn cynnwys gwariant rhwydwaith y BBC yng Nghymru, sydd hefyd o fudd i gynulleidfaoedd ledled y DU. Cymdeithas yr Iaith yw'r unig gorff sydd wedi rhoi cynnig manwl i'r Pwyllgor o sut y mae'n meddwl y dylai strwythur darlledu datganoledig i Gymru edrych. Yn nhystiolaeth y Gymdeithas, cyfeirir at Wlad y Basg fel enghraifft o ddatganoli darlledu a lwyddodd mewn gwlad is-wladwriaethol, a nodir nifer y sianeli teledu a gorsafoedd radio a ddarperir gan EitB, sef darlledwr cyhoeddus Gwlad y Basg. Mae gan EitB bum sianel deledu a phum gorsaf radio. Mae'r Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol hefyd yn galw am gynnydd yn nifer y sianeli darlledu.

**24.** Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, honnodd Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr BBC Cymru, fod cyllid ffi'r drwydded ar gyfer gwasanaethau i Gymru yn unig yn sylweddol uwch na'r ffigur cyfatebol yng ngwlad y Basg. Dywedodd hefyd fod y penderfyniad i beidio â chael yr un faint o sianeli ag sydd gan EitB yn benderfyniad ymwybodol gan BBC Cymru.

"The truth is that the funding from the licence fee coming to Wales for national services for Wales- not the Doctor Whos and the Casualties,

just for national services in Wales- is significantly in excess of the funding that's going to the Basque services, it's just that we choose to deliver it with a single channel rather than three channels, or with one radio station rather than four, and those are decisions we've made in Wales. But the funding is significantly in excess, and for me, that's the elephant in the room in this whole conversation: in any question of devolution, do you end up with the web of funding and resources to continue to deliver at scale and quality?"

**25.** Mae Cymdeithas yr Iaith wedi cwestiynu'r dadansoddiad hwn ac mae angen craffu arno ymhellach am ei bod yn anodd cymharu systemau darlledu mewn gwahanol wledydd.

### **Mae angen mwy o ddylanwad ar Gymru mewn trafodaethau ynghylch ffi'r drwydded**

**26.** Mae lefel ffi'r drwydded yn cael ei phennu bob rhyw bum mlynedd gan Lywodraeth y DU yn dilyn trafodaethau â'r BBC. Ym mis Tachwedd 2020 dechreuodd Llywodraeth y DU broses ffurfiol i gytuno ar lefel ffi'r drwydded o 2022 ymlaen. Dyma'r tro cyntaf y bydd ffi'r drwydded hefyd yn cwmpasu'r holl arian cyhoeddus a ddarperir i S4C. Wrth lansio proses adnewyddu ffi'r drwydded, cyhoeddodd Llywodraeth y DU banel o ddeg o arbenigwyr yn y cyfryngau i helpu i lunio dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae Ofcom eisoes yn ymgymryd â darn tebyg o waith, o dan y teitl, Sgrin Fach. Trafodaeth Fawr.

**27.** Mae'r Arglwydd Hall, cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, wedi beirniadu'r modd y cynhaliwyd y trafodaethau ynghylch ffi'r drwydded yn y gorffennol. Dywedodd wrth Bwyllgor Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Tŷ'r Cyffredin ym mis Gorffennaf 2019 na ddylid cynnal trafodaethau am ffi'r drwydded mor gyflym y tu ôl i ddrysau caeedig yn y dyfodol. Dywedodd yr Arglwydd Hall:

I feel very, very strongly that this mustn't happen again,[ ... ] It happened in 2010 over a period of a few days, behind closed doors, and it happened again in 2015.

I think when it comes to 2021, next time it's negotiated, it needs to be in plain sight with parliamentary involvement in a way that allows proper debate to take place.<sup>25</sup>

---

<sup>25</sup> Government's TV licence fee decision was 'nuclear', BBC boss says - BBC News

**28.** Nododd yr Athro Justin Lewis y byddai penderfyniadau allweddol a wneir gan Lywodraeth y DU – fel setliad ffi'r drwydded – wedi cael eu gwrthwynebu gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd fod datganoli pwerau dros ddarlledu yn gyfle i roi sedd i Lywodraeth Cymru wrth y bwrdd wrth drafod pethau fel adnewyddu ffi trwydded y BBC, neu gyllid ar gyfer S4C.<sup>26</sup>

**29.** Galwodd am fodel llywodraethu gwahanol i'r hyn a nodwyd yng ngweddill y dystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor. Disgrifiodd yr hyn y gellid ei alw'n 'fodel ffederal', lle y byddai gan Gymru bŵer dros ddarlledu, ond y byddai'n defnyddio'r pŵer hwn i wneud penderfyniadau ar y cyd â chenhedloedd eraill y DU am ddarlledu ar lefel y DU. Yn ei farn ef, byddai ei gynigion yn rhoi mwy o annibyniaeth a sefydlogrwydd i'r BBC:

I do worry about the role that Government plays in setting the level of the licence fee, because I think that compromises the independence of the BBC. But if the future of the BBC has to depend upon agreement of a number of different devolved Governments around the UK, then, actually, I think that that's going to lead to more compromise, it's going to lead to a more stable environment.<sup>27</sup>

**30.** Ymhelaethodd ar ei safbwynt bod datganoli, yn ei farn ef, yn fodd i sicrhau mewnbwn gan Gymru i benderfyniadau hanfodol ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus:

The prize here is not being able to suddenly regulate in all kinds of ways that would be complex and difficult. It's having a very clear Welsh voice that is listened to and has to be listened to in central Government decisions about UK-wide broadcasters, because, at the moment, all of that power rests in London about all of these areas and Wales can be completely ignored. So, devolution is a potential route to that. It doesn't guarantee it, but it's a potential route to it. It's a legally complex area. If there was another route to it, I could see that also being a useful way forward, but, at this point, devolution looks like the most obvious legal route to that.<sup>28</sup>

**31.** Mae Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Gyfathrebu a Materion Digidol wedi galw am gyflwyno proses annibynnol a thryloyw ar gyfer pennu ffi'r drwydded. Mae eu cynigion yn cynnwys sefydlu Comisiwn Cyllido'r BBC a fyddai'n:

---

<sup>26</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig yr Athro Justin Lewis

<sup>27</sup> Paragraff 121, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Mawrth 2020

<sup>28</sup> Paragraff 117, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Mawrth 2020

...consult widely on the BBC's role and functions, taking account of all its duties and privileges, and public expectations, before making a recommendation to the Secretary of State. The BBC's responsibilities to serve both young and old audiences, to compete with big tech and to remain a source of soft power, require a generous settlement.<sup>29</sup>

**32.** Pan ofynnwyd iddo a fyddai cynrychiolaeth o Gymru ar gomisiwn ffi'r drwydded yn mynd i'r afael â'i bryderon, cyfeiriodd yr Athro Lewis at hyn fel:

Quite a clever model, which both addressed issues about Wales and representation, but also addressed the independence of the licence fee.<sup>30</sup>

**33.** Roedd Martyn Ingram yn cytuno â chynigion ar gyfer model ffederal o ddatganoli yn y DU, gan nodi:

Anything that can take Wales's case directly is good for me, and I think, sometimes, we're a little far away from the levers of power. I think devolution and bringing a political pressure, to be honest, to achieve the general consensus, I think, of what we need in Wales, I would see as definitely advantageous.<sup>31</sup>

**34.** Dywedodd yr Athro David Hutchinson o Brifysgol Caledonian Glasgow yn ei bapur ef i'r Pwyllgor y gall weld yr achos, yn wleidyddol ac yn ddiwylliannol, dros geisio symud i fodel ffederal.<sup>32</sup> Fodd bynnag, mae'n nodi, er mwyn i'r broses o ddatganoli darlledu yn llawn neu ymhellach weithio'n iawn, efallai y bydd angen newid sylweddol yn nhrefniadau cyfansoddiadol y DU.<sup>33</sup>

**35.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Diwylliant blaenorol wrth Bwyllgor Cyfathrebu a Materion Digidol Tŷ'r Arglwyddi ym mis Hydref 2019 y byddai'n gwrandao ar y dystiolaeth ar bob ochr ynghylch y BBC yn mynd yn wasanaeth tanysgrifio. Fodd bynnag, mae Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi'n dweud mai ychydig iawn o gefnogaeth a welodd i'r model hwnnw yn ystod ei ymchwiliad, a daeth i'r casgliad:

The licence fee is the guarantor of the BBC's financial independence and underpins its unique quality. A subscription model would

---

<sup>29</sup> <https://publications.parliament.uk/pa/ld201919/ldselect/ldcomuni/16/1602.htm>

<sup>30</sup> Paragraff 152, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Mawrth 2020

<sup>31</sup> Paragraff 143, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mawrth 2020

<sup>32</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig yr Athro Hutchinson

<sup>33</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig yr Athro Hutchinson

undermine the fundamental principle of universality that the BBC should be free-to-air.<sup>34</sup>

- 36.** Ym marn Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr BBC Cymru, ffi'r drwydded yw'r "least worst option". Dywedodd fod symud i fodel tanysgrifio yn bosibl ond y byddai'n newid natur sylfaenol y darlledwr.<sup>35</sup>

[...]there are lots of good creatives in the BBC who can do anything, but it wouldn't be the BBC, and it wouldn't fundamentally be an organisation that, in a sense, is uniquely committed, on a UK level, to serving everybody and giving value to all audiences.<sup>36</sup>

- 37.** Nododd Owen Evans, Prif Weithredwr S4C:

If you agree there's market failure, then a subscription model doesn't really tally with funding that type of activity.<sup>37</sup>

- 38.** Pwysleisiodd Martyn Ingram bwysigrwydd penodol y ddadl ynghylch ffi'r drwydded i Gymru:

Wales has a particular voice in that, because I think we're back to the market failure. If you do dismantle the licence fee in whatever form, I think the consequences for Wales and public service broadcasting could be really serious. So, I think it's really important that the Welsh perspective and the Welsh situation is heard through this debate<sup>38</sup>.

- 39.** Wrth drafod cyllid i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, mae'n bwysig cofio bod cystadleuaeth i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus nid yn unig yn sgil y ffaith bod gwasanaethau ffrydio newydd ar gael ond hefyd y ffaith bod ganddynt gyllidebau enfawr i greu eu cynnwys. Yn ôl pob sôn, gall Netflix ac Amazon wario cymaint â £15 miliwn yr awr ar gynhyrchiad<sup>39</sup>. O gymharu, mae strwythur tariff dangoso! cyfredol y BBC yn dangos uchafswm gwariant o £1 miliwn yr awr ar ddramâu premiwm. Y ffigur cyfatebol yn achos S4C yw £240,000.

- 40.** Mae'r Athro Hutchinson yn nodi:

---

<sup>34</sup> Tŷ'r Arglwyddi – Public service broadcasting: as vital as ever – Select Committee on Communications and Digital (parliament.uk)

<sup>35</sup> Paragraff 46, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 22 Ionawr 2020

<sup>36</sup> Paragraff 46, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 22 Ionawr 2020

<sup>37</sup> Paragraff 53, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 22 Ionawr 2020

<sup>38</sup> Paragraff 172, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mawrth 2020

<sup>39</sup> Adroddiad Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi

If the Scottish, Irish or Welsh Assemblies wish to enhance broadcasting within their nations, then they really have to face up to the fact that they may have to find the cash themselves.<sup>40</sup>

**41.** Gwneir cymhariaeth yn aml rhwng cyllid y BBC yng Nghymru ac yn yr Alban, sydd â sianel sy'n darlledu cynnwys yn benodol ar gyfer yr Alban. Cafodd BBC Scotland ei chyhoeddi gan y BBC ym mis Chwefror 2017, â chyllideb flynyddol arfaethedig o £30 miliwn (£19 miliwn o arian newydd, ac £11 miliwn o raglenni a wnaed yn flaenorol ar gyfer BBC Two yn yr Alban).

**42.** Trafododd Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr BBC Cymru, y gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd gan y BBC yng Nghymru a'r Alban pan roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor ym mis Medi 2018. Nododd y byddai cyllideb BBC Scotland bron yn union yr un fath â chyllideb BBC Cymru ar gyfer teledu Saesneg, gan nodi:

I think it is absolutely appropriate that there is asymmetry in terms of how different nations want to spend their money. The view that we took very, very clearly was two things. One, that the market is moving, so the rise of on-demand players is very significant and we want to play big on the on-demand players. What do we know works there? We know that drama works there. So, that's why Hidden, Requiem and Keeping Faith have their combined requests on iPlayer, to date, at 37 million. Drama is expensive but it plays well. Comedy plays; we've got a big season of comedy launching next week. The other thing we wanted to do is we wanted to put our content where the biggest audiences are. So, we deliberately focused in Wales on BBC One and we focused on getting our content particularly onto BBC Two at a UK level. So, all our focus is on delivering quality, raising the bar and getting our output to the biggest audiences.

When we talked about a channel in Wales, the issue that we came up with in Wales is (a) there isn't audience demand, and you need to listen to and respect where audiences are, but the second thing was that—and S4C have to grapple with this—filling channels requires certain levels of volume, and I don't think we're really—we don't want to be in the volume game, we want to be absolutely in a quality place. The reason Nick increases tariffs and the reason he can invest more in comedy and drama is because he doesn't have to fill schedules. So, we have taken a different route from Scotland, but I suspect, in terms of

---

<sup>40</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig yr Athro Hutchinson

the audience return, for audiences here in Wales, and for getting us on the network, it's the right approach for us.<sup>41</sup>

**43.** Fodd bynnag, yn 2019-20, gwariodd y BBC bron 70 y cant yn fwy ar gynnwys lleol drwy gyfrwng y Saesneg yn yr Alban nag a wariodd yng Nghymru. Gwariwyd mwy o arian ar BBC Scotland (£44 miliwn) na'r hyn a wariwyd ar gynnwys lleol i Gymru ar gyfer BBC1 a BBC2 gyda'i gilydd (£35 miliwn).<sup>42</sup>

**44.** Ers 2010 mae ffi'r drwydded wedi'i defnyddio i ariannu gweithgarwch ychwanegol, o gyflwyno band eang mewn ardaloedd gwledig i S4C, gan leihau faint o arian sydd ar gael fel arall i'r BBC. Yn fwyaf diweddar, yn 2019, penderfynodd Llywodraeth y DU roi'r gorau i ariannu trwyddedau ar gyfer pobl dros 75 oed a phasio'r cyfrifoldeb i benderfynu ar ddyfodol y consesiwn hwn i'r BBC. Bydd penderfyniad y BBC i liniaru effaith y toriad hwn gan Lywodraeth y DU – drwy ddarparu trwyddedau am ddim i'r rhai dros 75 oed sydd ar gredyd pensiwn – yn dal i gostio tua £250 miliwn i'r BBC erbyn 2021-22. Mae Voice of the Listener and Viewer, (elusen sy'n cynrychioli buddiannau cynulleidfaoedd yn y DU), wedi cyfrifo bod y swm gwirioneddol o gyllid cyhoeddus a delir i'r BBC (wedi'i addasu yn unol â chwyddiant) ar gyfer gwasanaethau a ddarlledir i gynulleidfaoedd y DU wedi gostwng 30 y cant yn y degawd diwethaf.<sup>43</sup>

**45.** Mae'r Athro Hutchinson yn cyfeirio at “unending pressures on the licence fee generated by the Westminster government”.<sup>44</sup>

### Mae'r toriadau i S4C wedi bod “yn ddifrifol ac yn anghymesur”

**46.** Yn 2010, gostyngodd Llywodraeth y DU y cyllid oedd ar gael i S4C, yn ogystal â newid ffynhonnell y cyllid hwn. O'r blaen, roedd y rhan fwyaf o refeniw S4C yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol gan yr Adran Materion Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ac roedd yn gysylltiedig â chwyddiant. Ers mis Ebrill 2013, mae'r rhan fwyaf o'r cyllid hwnnw wedi dod o ffi'r drwydded, gyda'r Adran Materion Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yn parhau i ddarparu grant cymharol fach (£6.8 miliwn ar hyn o bryd). Mae incwm masnachol S4C yn cyfrif am tua 2.5 y cant o incwm cyffredinol y darlledwr.

**47.** Mae'r lefelau blynyddol presennol o gyllid cyhoeddus – £74.5 miliwn o ffi'r drwydded a £6.8 miliwn gan yr Adran Materion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon – yn sefydlog tan 2021-22. Bydd y cyllid cyhoeddus a delir i'r sianel ar ôl

---

<sup>41</sup> Paragraff 96, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 26 Medi 2018

<sup>42</sup> Adroddiad Blynyddol y BBC 2019-20

<sup>43</sup> <https://www.vlv.org.uk/news/vlv-research-shows-a-30-decline-in-bbc-public-funding-since-2010/>

<sup>44</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig yr Athro Hutchinson



y cyfnod hwn yn fater i'w drafod cyn cyfnod setliad ffi'r drwydded rhwng 2022-23 a 2027-28.

**48.** Mae cyllid S4C wedi gostwng o £102 miliwn yn 2010 i £81 miliwn yn 2018-19, sy'n ostyngiad termau real o 37 y cant.<sup>45</sup>

**49.** Cafodd y toriadau hyn eu beirniadu pan gawsant eu cyflwyno yn 2010 am eu bod wedi'u gwneud drwy gytundeb gwleidyddol rhwng uwch swyddogion y DU yn y BBC a Llywodraeth y DU yn Llundain, heb ymgynghori'n briodol â Chymru nac S4C.

**50.** Yn 2017, yn ei adroddiad ar ddyfodol S4C (Tu Allan i'r Bocs), dywedodd y Pwyllgor fod toriadau i gyllid y sianel "wedi bod yn ddifrifol ac yn anghymesur" a'u bod yn cael "effaith barhaol a difrifol ar ei gallu i ddarparu ei gwasanaeth".<sup>46</sup>

**51.** Gofynnwyd i Huw Jones, cyn-Gadeirydd S4C, a fyddai'n cefnogi datganoli pwerau dros S4C, ond nid gweddill darlledu:

Dwi'n meddwl naill ai mae'r dadleuon yn ymwneud â datganoli darlledu yn ei gyfanrwydd, neu ddim. Mae datganoli S4C yn golygu datganoli'r cyfrifoldeb am gyllido S4C, a dwi'n dod yn ôl rownd y cylch: ocê, o ble mae'r cyllid yn dod?

Mae bwrdd S4C yn gorff sydd yn bodoli gydag un pwrpas yn unig, sef darparu gwasanaeth—neu wasanaethau erbyn hyn—cyfryngol Cymraeg eu hiaith. Mae o'n gorff sydd â'r hawl i wneud ei benderfyniadau ei hun. Does yna ddim llawer o gyfyngiadau arno fo. Mae'r cyfyngiad ar wneud pethau digidol wedi mynd. Y cyfyngiad sydd ar S4C yw cyllid. Felly, dwi ddim yn crwydro'n bell iawn o'r pwynt sylfaenol yna. Ac i unrhyw un sy'n dadlau dros ddatganoli S4C yn unig, byddwn i am iddyn nhw brofi beth yw'r budd i'r cyhoedd o wneud hynny.<sup>47</sup>

**52.** Yn yr un modd, awgrymodd Llion Iwan, o'r cwmni cynhyrchu Cwmni Da, y dylid naill ai datganoli darlledu yn ei gyfanrwydd, neu ddim o gwbl, yn hytrach na datganoli'r cyfrifoldeb dros S4C yn unig. "If you're looking at broadcasting", meddai wrth y Pwyllgor, "everything should be included in that—all the media in the languages".<sup>48</sup>

---

<sup>45</sup> Cyfrifwyd hyn gan ddefnyddio cyfrifydd chwyddiant Banc Lloegr

<sup>46</sup> <https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld11157/cr-ld11157-w.pdf>

<sup>47</sup> Paragraff 70, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Mawrth 2020

<sup>48</sup> Paragraff 138, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mawrth 2020

## Ein barn ni

Wrth bennu faint o gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus a gynhyrchir, safon y cynnwys hwnnw a'r graddau y mae'n diwallu anghenion Cymru a chynulleidfaoedd Cymru, y ffactor pwysicaf yw'r penderfyniadau a wneir ynghylch cyllid. **Nid yw'r DU, gan gynnwys Cymru, wedi cael budd o'r system bresennol, lle mae Llywodraeth y DU yn gwneud penderfyniadau am ffi'r drwydded heb fawr ddim goruchwyliaeth ddemocrataidd.** Mae cyllid y BBC ac S4C, sydd gyda'i gilydd yn darparu'r rhan fwyaf o'r cynnwys a ddarlledir yn benodol i gynulleidfaoedd Cymru, wedi gostwng yn sylweddol dros y degawd diwethaf. At hynny, mae ansicrwydd cynyddol p'un a fydd Llywodraeth y DU yn parhau i gefnogi egwyddor ffi'r drwydded yn y dyfodol.

Mae Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Gyfathrebu a Materion Digidol wedi galw am gyflwyno **proses annibynnol a thryloyw ar gyfer pennu ffi'r drwydded**, ar ffurf Comisiwn Cyllido i'r BBC. Rydym yn ategu'r egwyddor y dylid pennu cyllid darlledwyr cyhoeddus yn annibynnol ar fympwy'r llywodraeth ar y pryd, a gall comisiwn annibynnol fod yn un ffordd o gyflawni hynny. Pe bai hyn yn cael ei wneud ar lefel y DU, byddai angen cydnabod bod ffi'r drwydded hefyd yn ariannu S4C, felly mae'n amhriodol ei ddisgrifio fel comisiwn y "BBC".

O ystyried statws y Gymraeg fel iaith leiafrifol, byddai angen diogelu'r cyllid ar gyfer y Gymraeg drwy fformiwla ariannu statudol fel rhan o unrhyw fecanwaith a sefydlir. Gallai fformiwla ariannu o'r fath, er enghraifft, bennu isafswm ar gyfer y gyfran o ffi'r drwydded y mae'n rhaid ei gwario ar gynnwys Gymraeg i'r cyfryngau.

Gallai ceisio mewnbwn comisiwn annibynnol wrth bennu ffi'r drwydded, neu wrth ddyrannu mathau eraill o gyllid cyhoeddus ar gyfer darlledu, helpu i sicrhau bod y BBC ac S4C yn gweithio er budd y gynulleidfa, yn hytrach na gwleidyddion.

Hoffai rhai aelodau o'r Pwyllgor weld model wedi'i ddatganoli'n llawn ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus, lle mae ffi'r drwydded – neu fath arall o refeniw – yn cael ei chasglu a'i gwario'n llwyr yng Nghymru. Mewn model o'r fath hoffem weld comisiwn darlledu gwasanaeth cyhoeddus i Gymru yn cael ei sefydlu er mwyn sicrhau nad oedd modd i ymyrraeth wleidyddol effeithio ar benderfyniadau ariannu.

Yn unol â'r trefniadau presennol, **hoffem weld comisiwn ariannu annibynnol yn cael ei sefydlu â chynrychiolaeth benodol o Gymru.** Os defnyddir ffi'r drwydded i ariannu S4C byddai hyd yn oed yn bwysicach sicrhau'r gynrychiolaeth hon o

Gymru a fformiwla ariannu statudol ar gyfer darlledu Cymraeg. Dylai'r penderfyniadau a wneir gan gorff o'r fath fod yn destun cydsyniad gan gynrychiolwyr o holl wledydd y DU. Os gwneir penderfyniadau heb gydsyniad llawn, dylid gosod datganiad yn esbonio'r rhesymau dros wneud y penderfyniad yn Senedd y DU a'r Senedd.

Mae'r sôn am symud cyllid ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus i fodel tanysgrifio yn methu â mynd i'r afael â phwrrpas darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Gwerth y BBC ac S4C yw eu bod yn darparu cynnwys sydd, yn ein barn ni fel cymdeithas, yn angenrheidiol, ond nad yw'r farchnad rydd yn ei ddarparu. Nid yw dyblygu modelau busnes Netflix ac Amazon Prime yn ffordd o lenwi'r bylchau yn y ddarpariaeth y mae eu gwasanaethau'n eu gadael ar eu hôl.

**Mae'r Pwyllgor yn cytuno'n unfryd ei bod yn sefyllfa anarferol bod y pwerau dros S4C yn nwylo Gweinidogion yn Llundain, yn hytrach na Gweinidogion y wlad ble mae'r iaith sydd i'w chlywed ar S4C yn cael ei siarad i raddau helaeth.** Un o'r dadleuon a wnaed yn draddodiadol o blaid y sefyllfa hon yw ei bod yn osgoi anghytundebau yng Nghaerdydd ynghylch faint o gyllid a ddylai fynd i S4C yn hytrach na blaenoriaethau eraill y llywodraeth, megis iechyd ac addysg. Ond dadl wag yw hon, o ystyried bod eisoes yn rhaid i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu gwariant rhwng adrannau.

Serch hynny, unwaith y bydd S4C yn cael ei hariannu o ffi'r drwydded, mae'r ddadl honno'n diflannu. Clywsom ddadl pe bai pwerau dros S4C yn cael eu datganoli i Gymru, na ddylai hynny gael ei wneud oni bai bod yr holl bwerau darlledu eraill yn cael eu datganoli hefyd. Mae'r ddadl hon yn anwybyddu'r graddau y mae pwerau darlledu wedi'u rhannu rhwng sefydliadau'r DU a sefydliadau Cymru ar hyn o bryd.

Safbwynt arall yw y dylai datganoli S4C fod yn rhan o becyn ehangach o ddatganoli darlledu, gan gynnwys materion cysylltiedig yn ymwneud â'r Gymraeg a darlledu megis cynnwys newyddion Cymraeg a newyddion Cymru (yn Gymraeg a Saesneg) ar radio masnachol a theledu lleol.

Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai pwerau dros S4C (megis pennu cylch gwaith y darlledwr, a'i atebolrwydd parhaus) a materion eraill sy'n ymwneud â darlledu gwasanaeth cyhoeddus Cymraeg gael eu datganoli i Gymru. Yn debyg i bob darlledwr arall a ariennir yn gyhoeddus, dylai cyllid S4C gael ei bennu gan gorff hyd braich oddi wrth y llywodraeth, a byddai 'Comisiwn Annibynnol o ran y Drwydded' yn un opsiwn posibl wrth geisio cyflawni hyn. Mae rhai Aelodau o'r farn y dylai'r newid hwn ddigwydd ochr yn ochr â phroses gyfatebol o ddatganoli rhagor o bwerau dros ddarlledu yn Saesneg. Dylid nodi bod yr

argymhelliad hwn yn rhan o becyn ehangach a amlinellir yn ein hargymhellion eraill sy'n ymwneud â darlledu yn Gymraeg ac yn Saesneg.

**Argymhelliad 3.** Yn unol â'r trefniadau presennol, hoffem weld comisiwn ariannu annibynnol yn cael ei sefydlu â chynrychiolaeth benodol o Gymru. Dylai'r penderfyniadau a wneir gan gorff o'r fath fod yn destun cydsyniad gan gynrychiolwyr o holl wledydd y DU. Dylai'r aelodau o Gymru ar y comisiwn gael eu penodi gan Lywodraeth Cymru, ac yna dylid cael gwrandawriad cadarnhau gerbron un o bwyllgorau priodol y Senedd.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth y DU ddatganoli pwerau dros S4C a materion eraill sy'n ymwneud â darlledu gwasanaeth cyhoeddus iaith Gymraeg i Gymru.

### 3. Newid rheoliadol

Mae yna drafodaeth ynghylch a all darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus masnachol, sy'n wynebu cystadleuaeth gynyddol o du gwasanaethau ffrydio byd-eang, ymdopi â phwysau rheoleiddio ychwanegol i ddarparu rhagor o gynnwys gwasanaeth cyhoeddus. Dau faes ble rydym yn credu y gallai rheoleiddio sicrhau mwy o fuddion cyhoeddus yw cynnwys Cymraeg ar radio masnachol a chynyrchiadau rhwydwaith ITV yng Nghymru.

**53.** Nid oedd yr un o'r ymatebwyr i ymgynghoriad y Pwyllgor ar ddatganoli darlledu yn ei weld fel cyfle i leihau rheoleiddio. Felly, y farn gyffredinol oedd y dylid sicrhau mwy o gynnwys ar y cyfryngau i Gymru, neu gynyrchiadau yng Nghymru, naill ai drwy gyllid uniongyrchol neu drwy osod mwy o ofynion ar ddarparwyr cyfryngau.

**54.** Yn achos y cyfryngau a ariennir yn uniongyrchol (y BBC ac S4C) mae hyn yn syml: byddant yn darparu beth bynnag y mae'n ofynnol iddynt ei ddarparu, ar yr amod bod digon o gyllid i wneud hynny. Mae cynnwys gwasanaeth cyhoeddus arall (e.e. ITV a radio masnachol) yn cael ei sicrhau drwy ddarparu adnodd prin (slot ar y canllaw rhaglenni electronig neu donfedd ddarlledu) i ddarlledwr masnachol yn gyfnewid am swm penodol o gynnwys gwasanaeth cyhoeddus (megis newyddion lleol). Felly, mae'r cwestiwn a ellid cael mwy o gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus gan y gweithredwyr masnachol hyn yn golygu gofyn a fyddant, i bob pwrpas, yn fodlon talu mwy am yr adnodd y maen nhw'n ei gael drwy fod yn ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

**55.** Drwy gydol ein hymchwiliad clywsom ddadleuon ynghylch p'un a all darparwyr cyfryngau masnachol, sy'n wynebu cystadleuaeth gynyddol o du'r gwasanaethau ffrydio byd-eang, ymdopi â phwysau rheoleiddio ychwanegol i ddarparu mwy o gynnwys gwasanaeth cyhoeddus.

#### A yw Cymru'n cael digon o drwydded Sianel 3?

**56.** ITV Cymru yw'r unig ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus a ariennir yn breifat yng Nghymru. Ledled y DU mae 15 o drwyddedau Sianel 3 rhanbarthol, sy'n disgrifio'r telerau y mae'n rhaid i berchennog y drwydded weithredu'n unol â hwy.

Heblaw am ddwy drwydded yr Alban – sy'n eiddo i STV – mae pob un o'r trwyddedau hyn yn eiddo i ITV.

**57.** Ar hyn o bryd, mae trwydded Sianel 3 Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ITV ddarparu pedair awr o newyddion a 90 munud o raglenni nad ydynt yn ymwneud â'r newyddion ar gyfer Cymru bob wythnos. Adnewyddwyd y drwydded hon yn 2014 am ddeng mlynedd.

**58.** Tan 2014, roedd Cymru yn cael ei gwasanaethu gan drwydded Sianel 3 ddeuol a oedd hefyd yn cwmpasu Gorllewin Lloegr. Roedd gostyngiad sylweddol yn allbwn ITV ar gyfer Cymru yn 2009, yn dilyn ail adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus. Cytunwyd ar y toriadau ar y pryd gan fod y rheoleiddiwr o'r farn bod risg wirioneddol y gallai ITV ddewis rhoi'r gorau i'w statws fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus a rhoi ei drwyddedau Sianel 3 yn ôl. Yn 2014 cafodd y gwasanaeth Sianel 3 ar gyfer Cymru ei drwydded ei hun, sy'n para tan 2024.

**59.** Trafododd y Pwyllgor werth y drwydded Sianel 3 i Gymru gyda Phil Henfrey, Pennaeth Newyddion a Rhaglenni ITV Cymru yn 2016. Nododd fod gwerth y drwydded wedi gostwng yn arwyddocaol ers y 1970au a'r 1980au, pan fyddai trwydded Sianel 3 yn rhoi monopoli o ran hysbysebion teledu. Awgrymodd fod y gostyngiad hwn mewn gwerth yn golygu nad yw Ofcom yn gallu gosod cymaint o rwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus ar ddeiliad y drwydded. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

If people want more (public service content) – and I completely understand why people would want more – then how do you increase the value of that licence to whoever holds it? ... Ofcom looked at that in 2008-9. It didn't find any answers.<sup>49</sup>

**60.** Ymhelaethodd Magnus Brooke, Cyfarwyddwr Polisi a Materion Rheoleiddio ITV, ar y pwysau masnachol a oedd, yn ei farn ef, yn cyfyngu ar y rhwymedigaethau y gallai'r darlledwr eu hysgwyddo:

We're competing with all of these players who have many of the same shareholders that we do, we need to continue to make a viable commercial return. And it does mean that it's difficult for us to take on obligations that don't make a profit.<sup>50</sup>

**61.** Trafododd y Pwyllgor gyda'r tystion y tensiwn hwn rhwng pwysau masnachol a rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus, gan drafod hynny'n ehangach nag

---

<sup>49</sup> Paragraff 169, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 6 Hydref 2016

<sup>50</sup> Paragraff 92, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 22 Ionawr 2020

ITV yn unig. Awgrymodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg i'r Pwyllgor y gellid sicrhau mwy o raglenni heb yr angen am arian cyhoeddus ychwanegol pe bai darlledu yn cael ei ddatganoli. Dywedodd Heledd Gwyndaf:

Dwi ddim yn gweld bod angen unrhyw adnoddau ychwanegol er mwyn, er enghraifft, creu 50 y cant mwy o raglenni. Ac un peth dwi ddim yn deall yw'r ofn yma y bydd y cwmnïau masnachol yn dweud, 'Ni'n mynd te.'<sup>51</sup>

**62.** Awgrymodd Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr y dylai gwerth trwydded Sianel 3 yng Nghymru gyfleu cysyniad o'r gwerth ychwanegol i ITV o fod yn berchen ar yr holl drwyddedau Sianel 3 sydd ar gael:

Although ITV may try to argue that the same obligations are no longer affordable, it is worth noting that in 2016, ITV took over UTV, the Channel 3 licensee in Northern Ireland. In addition to funding very similar PSB obligations (368 hours of programmes, including 257 hours of news, 57 hours of current affairs and 44 hours of other genres, at a cost of 6.1 million in 2018) ITV has to write off over the eight remaining years of the licence £100 million spent on the acquisition of UTV (less €10 million raised through the resale of UTV's assets in the Republic of Ireland). It is clear that ITV attaches a premium to owning all available Channel 3 licences.<sup>52</sup>

**63.** Ar y llaw arall, roedd Hywel William o Bwyllgor Cyngori Ofcom yn teimlo bod y cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus y gofynnir amdano oddi wrth ITV Cymru "ddim wedi newid, wir, oddi ar ein hail adolygiad ni o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus" a bod y rheoleiddiwr, sef Ofcom, "wedi cael hwnna fwy neu lai yn iawn, o ran y sefyllfa economaidd a'r pwysau sydd ar ITV".<sup>53</sup>

**64.** Er na fyddai'n disgrifio trwydded Sianel 3 fel 'llwyfan sydd ar dân', nododd Kevin Bakhurst o Ofcom:

The value of the PSB benefits they [ITV] get in terms of spectrum or in terms of prominence on electronic programme guides is diminishing all the time as audiences change their habits.<sup>54</sup>

**65.** Yn yr un modd, dywedodd yr Athro McElroy:

---

<sup>51</sup> Paragraff 187, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Mawrth 2020

<sup>52</sup> Ymateb i ymgynghoriad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar ddatganoli darlledu

<sup>53</sup> Paragraff 54, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 20 Tachwedd 2019

<sup>54</sup> Paragraff 64, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 20 Tachwedd 2019



The value of the [Channel 3] licence is not static and is changing, but I would say there's still value in that licence, and it's also very good to see ITV Wales continuing to operate with an ethos of public service broadcasting.<sup>55</sup>

**66.** Un maes lle awgrymodd yr Athro McElroy y gellid sicrhau mwy o werth cyhoeddus o drwydded Sianel 3 yng Nghymru oedd drwy sefydlu cwotâu cynhyrchu rhanbarthol:

Thinking about how ITV might engage with the wider push towards regions and nations production would be useful. I think the success of those companies in Wales, in Boom, that do that already would be a good platform from which to begin that conversation.<sup>56</sup>

**67.** Yn adroddiad Cyfryngau'r Genedl 2020 gan Ofcom, nodwyd faint a wariwyd gan y gwahanol ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ar gynhyrchu.

Cyfran y cynrychiadau rhwydwaith cymwys yng Nghymru, yn ôl darlledwr gwasanaeth cyhoeddus: 2015-2019

|                  |              | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
|------------------|--------------|------|------|------|------|------|
| <b>Y BBC</b>     | Gwariant (%) | 7.1  | 5.8  | 6.7  | 6.3  | 8.2  |
|                  | Oriau (%)    | 4.9  | 4.3  | 4.4  | 4.6  | 5.4  |
| <b>ITV</b>       | Gwariant (%) | 0.3  | 0.1  | 0.01 | 0.01 | 0.1  |
|                  | Oriau (%)    | 0.1  | 0.1  | 0.1  | 0.1  | 0.1  |
| <b>Channel 4</b> | Gwariant (%) | 2.0  | 2.8  | 2.2  | 3.4  | 2.4  |
|                  | Oriau (%)    | 2.6  | 2.4  | 2.7  | 4.2  | 4.6  |
| <b>Channel 5</b> | Gwariant (%) | 0    | 0.3  | 0.4  | 0.2  | 1.4  |
|                  | Oriau (%)    | 0.1  | 0.4  | 0.5  | 0.2  | 0.5  |

Ffynhonnell: **Cyfryngau'r Genedl 2020, Adroddiad Cymru, Ofcom**, data gan Ofcom/darlledwyr

<sup>55</sup> Paragraff 166, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 20 Tachwedd 2019

<sup>56</sup> Paragraff 180, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 20 Tachwedd 2019

**68.** Mae adroddiad Cyfryngau'r Genedl gan Ofcom yn dangos bod ITV yn gwario llai o arian ac yn cynhyrchu llai o oriau o gynnwys rhwydwaith yng Nghymru yn gyson o gymharu â'r holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

## **Mae angen y pwerau ar Ofcom i sicrhau darpariaeth Gymraeg ar radio masnachol**

**69.** Ar hyn o bryd nid oes gan Ofcom bwerau i'w gwneud yn ofynnol i ddeunydd penodol, fel gofynion Cymraeg, gael ei gynnwys mewn fformatau radio masnachol. Dim ond pwerau i gymeradwyo neu wrthod ceisiadau sydd ganddo, ac i benderfynu rhwng ceisiadau sy'n cystadlu â'i gilydd.

**70.** Dywedodd Cymdeithas yr Iaith wrth y Pwyllgor fod Radio Ceredigion, a gollodd ei ofynion Cymraeg yn 2018, yn 'crisialu'r' broblem o ran rheoleiddio radio masnachol. Yn hyn o beth, mae'n werth trafod yr hyn a ddigwyddodd yn eithaf manwl.

### **Radio Ceredigion: astudiaeth achos o wasanaeth darlledu Cymraeg a gollwyd**

Ym mis Ebrill 2018 ail-hysbysebodd Ofcom y drwydded radio fasnachol FM ar gyfer Ceredigion ar ôl i weithredwr y drwydded, Radio Ceredigion Ltd, is-gwmni dan berchnogaeth Iwyr Nation Broadcasting, benderfynu peidio â defnyddio'r broses ail-drwyddedu llwybr carlam. Byddai wedi bod yn rhaid i Nation Broadcasting gydymffurfio â'r rhwymedigaethau presennol o ran Fformat a DAB pe bai ei drwydded yn cael ei rhoi ar y llwybr carlam neu'n cael ei hadnewyddu pan ddeuai i ben ym mis Mai 2019. Drwy adael i'r drwydded ddod i ben, mentrodd Nation na fyddai'r un cynigydd arall yn cystadlu am y drwydded ac y gallai'r cwmni ailymgeisio am y drwydded gyda Fformat newydd.

Roedd y Fformat gwreiddiol yn cynnwys y gofyniad i ddarlledu 'rhaglenni Cymraeg rheolaidd ac adnabyddadwy' ond yn yr ail gais, mae'r fformat arfaethedig yn cynnig 'gwasanaeth neilltuol Cymreig ei natur'.

Ym mis Rhagfyr 2018 dyfarnodd Ofcom drwydded Ceredigion i Radio Ceredigion Ltd. Yn ei gais, roedd Radio Ceredigion Ltd wedi dweud, ar gyfer cyfnod y drwydded newydd, y byddai'n disodli gwasanaeth presennol Radio Ceredigion drwy aildrosglwyddo'r gwasanaeth a ddarperir o dan drwydded De Cymru (Nation Radio). Mae Radio Ceredigion a Nation Radio yn rhan o grŵp Nation Broadcasting.

O dan yr amgylchiadau hyn, nid oedd yn bosibl i Ofcom osod telerau i'r cynigydd ar gyfer unrhyw agwedd ar y Fformat arfaethedig a chymeriad y gwasanaeth. Mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi'r gallu i gwmnïau sy'n cynnig am drwyddedau gynllunio gwasanaethau fel y gwelant yn dda ac mae pŵer y rheoleiddiwr wedi'i gyfyngu i sicrhau bod cynigwyr llwyddiannus yn cadw at yr hyn a addawyd yn eu cynigion. Ni chaiff Ofcom gyfarwyddo trwyddedeion i ddarlledu math penodol o gerddoriaeth na chanran benodol o siarad, nac i dargedu demograffeg benodol na darlledu mewn iaith benodol.

**71.** Roedd Heledd Gwyndaf o Gymdeithas yr Iaith yn gresynu at golli cynnwys Cymraeg ar Radio Ceredigion, gan ddweud:

Mae wedi'i grisialu yng Ngheredigion, achos mae fy nghenhedlaeth i yn cofio Radio Ceredigion fel y dylai fe fod—radio lleol yng ngwir ystyr y gair. Ac o achos rheoleiddio Ofcom, mae hynny wedi cael ei adael i fynd rhwng y cŵn a'r brain, a dyw e ddim yn lleol o gwbl, yn enw masnach.<sup>57</sup>

**72.** Roedd Colin Nosworthy o Gymdeithas yr Iaith yn teimlo bod diffyg pwerau Ofcom dros y Gymraeg yn fwlch rheoliadol y mae angen ei lenwi:

Dyw e ddim yn rhan o remit Ofcom i amddiffyn y Gymraeg; maen nhw'n dweud hynny yn hollol blaen. Does ganddyn nhw ddim rôl yn amddiffyn y Gymraeg na rheoleiddio o ran y Gymraeg, felly does neb yn gwneud y gwaith yna. Felly, os ydych chi eisiau y Gymraeg i ddiflannu oddi ar yr awyr masnachol, dyna beth sydd yn digwydd a dyna beth sydd yn gynyddol yn digwydd, oherwydd does yna neb gyda phwras na remit i wneud hynny. Felly, dyna un maes amlwg lle mae angen rheoleiddio, a does yna ddim.<sup>58</sup>

**73.** Roedd Angharad Mair o'r Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol yn teimlo nad oedd y rheoleiddiwr, sef Ofcom, yn cefnogi anghenion ieithyddol y gymuned leol. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

...achos bod dim rheoleiddiwr cryf gyda ni i sicrhau bod gwasanaeth radio cymunedol yn adlewyrchu iaith y gymuned, beth sydd wedi digwydd yw bod yr iaith honno wedi diflannu, ac mae hynny, dwi'n meddwl, yn ofnadwy o safbwynt yr iaith Gymraeg.<sup>59</sup>

---

<sup>57</sup> Paragraff 167, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Mawrth 2020

<sup>58</sup> Paragraff 169, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Mawrth 2020

<sup>59</sup> Paragraff 37, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mawrth 2020

**74.** Nododd Martin Mumford o Nation Broadcasting: “The direction of regulation in commercial radio is towards deregulation”. Mae’r Pwyllgor wedi edrych ar y mater hwn o’r blaen yn ei ymchwiliad i Radio yng Nghymru (2018). Esboniodd Mr Mumford fod radio masnachol, ac yn enwedig radio masnachol lleol, o dan lawer o bwysau, gan nodi:

That whole model is being challenged and, indeed, our group in Wales now is amongst the last in the UK to actually operate radio stations for individual counties with content relevant to each individual county.<sup>60</sup>

**75.** O gofio’r pwysau masnachol sy’n effeithio ar ei ddiwydiant, eglurodd Mr Mumford effaith bosibl dilyn trefniadau rheoleiddio gwahanol yng Nghymru a gweddill y DU, pe bai darlledu yn cael ei ddatganoli a bod Cymru yn torri ei chŵys reoleiddio ei hun:

I think that there is a danger that you might lose what you’ve got, because, if it becomes more difficult to run an organisation commercially, then commercial businesses take the route of least resistance. And there is some evidence of that. So, if you look in Scotland, under a previous set of UK-wide regulations, Global handed back one of the big licences for Glasgow because they were at that time required to provide pretty much all of their programming from the nations; it’s actually part of the regulations that have changed. So, there is some evidence of where a high level of requirement for broadcasting from the nation could actually lead to licences being handed back, becoming uneconomic.<sup>61</sup>

**76.** Yn groes i hyn, roedd Colin Nosworthy o Gymdeithas yr Iaith yn dadlau:

Mae’n gyffredin iawn ar draws y byd fod yna reoliadau am ieithoedd lleiafrifol yng nghyd-destunau fel Gwlad y Basg a Catalwnia. Felly, buaswn i’n erfyn arnoch chi i beidio â gwrando ar y cyfalafwyr sydd ond yn poeni am elw.<sup>62</sup>

**77.** Wrth siarad yn fwy cyffredinol am effaith dargyfeirio rheoliadol ar ddarlledwyr, dywedodd yr Athro Hutchinson:

Competition from global streaming companies is a serious challenge to UK PSBs, and it is perfectly reasonable to suggest that any further

---

<sup>60</sup> Paragraff 23, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Mawrth 2020

<sup>61</sup> Paragraff 26, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Mawrth 2020

<sup>62</sup> Paragraff 170, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Mawrth 2020

broadcasting devolution within the UK would have to take account of any damage that might be caused to the existing PSBs.<sup>63</sup>

## Y farchnad fyd-eang: llywodraethu lleol neu fyd-eang?

**78.** Mae'r twf o ran defnyddio gwasanaethau fideo ar alw drwy danysgrifio yn golygu bod cynulleidfaoedd Cymru bellach, yn fwy nag erioed, yn gweld cyfryngau o bob cwr o'r byd. Felly mae'r graddau y mae'r cynnwys hwn yn cael ei reoleiddio, a sut, yn cael effaith fawr ar y gwasanaethau a geir gan gynulleidfaoedd yng Nghymru.

**79.** Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, cyfeiriodd Radiocentre at y grymoedd byd-eang sy'n effeithio ar ddarlledu yn y DU, gyda chewri ffrydio fel Spotify a Netflix yn creu cystadleuaeth i'r darparwyr presennol. Mae'n nodi:

These increasing threats from global players require a swift and a coordinated response which, ultimately a centralised regulator is in the best position to undertake. Steps have already begun to address this nationally, which would mean that any policy shifts towards devolution in this area would potentially harm the UK's broadcasting sectors ability to compete both here in the UK and internationally.<sup>64</sup>

**80.** Nododd hefyd:

The worldwide nature of these challenges and the speed at which technology develops underscores the importance of the UK having a united policy.

**81.** Mae Radiocentre yn teimlo mai ar y cyd ar lefel y DU fyddai'r ffordd orau o ymateb i'r heriau polisi hyn, yn hytrach na thrwy awdurdodaethau darlledu ar wahân yn y gwahanol wledydd.

**82.** Holodd Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr BBC Cymru, pa haen lywodraethu sydd orau ar gyfer rheoleiddio cwmnïau byd-eang:

If you believe that the fundamental issue facing all public broadcasting in the UK is globalisation, what regime, what regulatory regime, is most likely to be robust in creating space for public media? It's interesting—it's the US federal authorities and it's the EU that have been the most robust in those relationships to this point. The UK is now going to have

---

<sup>63</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig yr Athro Hutchinson

<sup>64</sup> Ymateb i ymgynghoriad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu:

<https://business.senedd.wales/documents/s97860/DoB08%20-%20Radiocentre.pdf>

to step up, on leaving the EU, and take on some of that regulatory oversight. Would devolving to Wales assist in that process or not?<sup>65</sup>

**83.** Yr awgrym mwyaf cyffredin a glywodd y Pwyllgor ynglŷn â rheoleiddio'r cewri ffrydio byd-eang oedd y dylid cyflwyno ardoll i ariannu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus. Cynigiodd Cymdeithas yr Iaith godi ardoll ar gwmnïau darlledu a thelathrebu, yn ogystal â chewri'r byd technoleg fel Facebook a Google. Yng ngweledigaeth y Gymdeithas, byddai'r refeniw newydd hwn yn cael ei ddefnyddio i helpu i gyllido sianeli darlledu a gwasanaethau ar-lein newydd. Mae pwerau codi treth o'r fath y tu allan i gymhwysedd y Senedd ar hyn o bryd, ac felly byddai angen gweithredu ar lefel y DU neu ragor o ddatganoli i'r Senedd.

**84.** Ym mis Rhagfyr 2020 cyhoeddodd Ofcom ei ddogfen ymgynghori Sgrin Fach, Trafodaeth Fawr ynghylch dyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Mae Ofcom yn nodi:

Defnyddir ardollau'r diwydiant ar gwmnïau telegyfathrebiadau yn Ffrainc a Sbaen. Yn yr Almaen a Ffrainc, cyflwynwyd ardollau ar wasanaethau ffrydio ar y sail bod gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio (SVoDs) yn dod yn rhan fwyfwy pwysig o systemau darlledu cenedlaethol, ond nad oes yn rhaid iddyn nhw gefnogi amcanion darlledu ehangach o fewn y systemau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus perthnasol.

**85.** Teimlai'r Athro Hutchinson fod achos cryf dros drethu'r cwmnïau cyfathrebu byd-eang mawr, ond y gallai fod yn anodd dyrannu'r arian hwn i ariannu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru:

The case for taxing the online companies such as Facebook and Google is a very strong one, but it might be rather difficult to hypothecate some of the revenue - if we can get our hands on it! - in the way which is suggested.<sup>66</sup>

**86.** Byddai penderfyniad gan Lywodraeth y DU i drethu cwmnïau dan berchnogaeth dramor yn debygol o godi mewn unrhyw drafodaethau masnach rhwng y DU a'r llywodraeth genedlaethol berthnasol. Cyfeiriodd Huw Jones at 'realpolitic' trethu cwmnïau byd-eang pan drafododd y mater hwn gyda'r Pwyllgor:

---

<sup>65</sup> Paragraff 118, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 22 Ionawr 2020

<sup>66</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig yr Athro Hutchinson

Mae America yn gwrthwynebu, felly mae hwn yn mynd i fod yn rhan o'r drafodaeth rhwng Prydain ac America ynglŷn â masnach. Mae Ffrainc wedi trio cyflwyno'r un math o fesur, ac mae Macron wedi gorfod camu nôl. Ond, mae'r pwnc yn un byw, sef bod y canfyddiad fod y cyfryngau masnachol yma, sydd â'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n dod o America, yn manteisio ar economïau gwledydd yng ngweddill y byd heb dalu treth ddigonol yn gwestiwn hollol deg, ac mae rhywun yn tybio y bydd ateb yn cael ei ffeindio i hynny maes o law. Os felly, ac os ydy'r marchnadoedd yma'n dal i gynyddu, ac os ydy'r arian yn mynd i fod yn sylweddol, wel, mi ddylid edrych ar hynny, o bosib, fel ffordd o ychwanegu at yr arian sydd ar gael ar gyfer yr elfennau darlledu cyhoeddus sydd byth yn mynd i gael eu hariannu'n fasnachol.<sup>67</sup>

**87.** Awgrymodd Colin Nosworthy o Gymdeithas yr Iaith fod twf gwasanaethau ffrydio byd-eang, nad ydynt yn cael eu rheoleiddio i raddau helaeth, yn cryfhau'r ddadl dros ddatganoli darlledu:

Dwi'n meddwl bod rhai pobl yn dweud—roedd rhai o'r tystion o'r BBC ac ITV yn dweud—achos bod Netflix yn bodoli ei fod e'n rhyw fath o ddadl yn erbyn datganoli darlledu. I'r gwrthwyneb yn llwyr: mae'n dangos bod angen corff yng Nghymru i fod yn rheoleiddio ac yn mynnu fod y Gymraeg yn cael presenoldeb ar y llwyfannau hynny.<sup>68</sup>

**88.** Esboniodd ei fod eisiau i lwyfannau ar-lein gael eu rheoleiddio mewn perthynas â'r Gymraeg:

Y man cychwyn yw: pwy sydd gyda chyfrifoldeb nawr dros sicrhau bod y Gymraeg ar blatfformau digidol fel Netflix a YouTube? Yr ateb yw: neb. Does neb yn cymryd y rôl a'r cyfrifoldeb o sicrhau bod yna fwy o bresenoldeb i'r Gymraeg a Chymru ar blatfform fel YouTube. Mae hwnna'n ddifffyg. Mae'n ddifffyg enbyd o safbwynt presenoldeb y Gymraeg ym mywydau pobl.<sup>69</sup>

## Y cwestiwn o ran Eastenders

**89.** Dywedodd Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr BBC Cymru, wrth y Pwyllgor fod cynulleidfaoedd yng Nghymru eisiau cynnwys Cymreig unigryw a chynnwys rhwydwaith y DU hefyd, fel Eastenders:

---

<sup>67</sup> Paragraff 18, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Mawrth 2020

<sup>68</sup> Paragraff 241, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Mawrth 2020

<sup>69</sup> Paragraff 209, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Mawrth 2020



We know that audiences in Wales want both UK services and Welsh services. Give them a binary choice of one or the other and you'll get a pretty short answer from them. So, how do you ensure that there's balanced provision in Wales between distinctive representation of Wales as a nation and that bringing together of the whole UK?

**90.** Yn yr un modd, nododd Mr Talfan Davies fod BBC y DU gyfan yn elwa o arbedion maint, gan roi'r enghreifftiau o gynnig am hawliau pencampwriaeth y Chwe Gwlad ac ariannu Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC.<sup>70</sup>

**91.** Trafododd yr Athro Hutchinson y posibilrwydd o gynyddu'r costau i gyd-fynd â datganoli i dalu am wasanaethau cyffredin y BBC:

There is a case for further devolution of broadcasting power, including the power to decide the level of the licence fee and the funding for S4C, but it would still be necessary to face the fact that, as there would have to be payment to the UK BBC for common services, then the licence fee in Wales - as in Scotland - might have to be significantly higher than it currently is.<sup>71</sup>

## **Ein barn ni**

Mae ITV Cymru yn elfen hanfodol o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan gyfrannu plwraliaeth mawr ei angen at ddarpariaeth y BBC ac S4C, a ariennir drwy ffi'r drwydded. Mae'n cynhyrchu newyddiaduraeth o safon, sy'n boblogaidd iawn ymhlith gwylwyr.

**Mae'n glir bod gwerth trwydded Sianel 3 wedi lleihau** ers y dyddiau pan allai gyflwyno cynulleidfya gaeth, bron, i'w hysbysebwyd masnachol. Nawr mae'n rhaid iddo gystadlu am wylwyr a refeniw hysbysebu gyda nifer cynyddol o gystadleuwyr darlledu a ffrydio a hysbysebwyd ar-lein. Rhaid i unrhyw un sy'n galw am gynnydd yn yr amodau gwasanaeth cyhoeddus sydd ynghlwm wrth drwydded Sianel 3 esbonio sut mae hyn yn cyd-fynd â sefyllfa newidiol ITV yn y farchnad.

Wedi dweud hynny, mae ITV yn dal yn boblogaidd ac yn llwyddiannus ac, fel awgrymodd Ofcom, nid 'llwyfan sydd ar dân' mohono. Mae'n briodol felly ei fod yn dal i ddarparu cyfraniad gwasanaeth cyhoeddus sylweddol yn gyfnewid am slot Sianel 3 yng Nghymru.

---

<sup>70</sup> Paragraff 166, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 22 Ionawr 2020

<sup>71</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig yr Athro Hutchinson

Mae ITV yn gwario llai o arian ac yn cynhyrchu llai o oriau o gynnwys rhwydwaith yng Nghymru yn gyson o gymharu â'r holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r BBC wedi dangos ei bod yn bosibl symud y gwaith cynhyrchu o Lundain a de-ddwyrain Lloegr heb gyfaddawdu ar safon. Yn rhannol oherwydd hyn, mae'r sector cynhyrchu yn ffynnu yng Nghymru. Rydym ni'n credu ei bod **bellach yn briodol i Ofcom ei gwneud yn ofynnol i ITV gynhyrchu mwy o gynnwys rhwydwaith yng Nghymru**. Mae'r sylfaen gynhyrchu leol lewyrchus yn golygu na ddylai hyn fod yn rhy feichus i ITV, ac mae methiant ITV i ddatganoli gwaith cynhyrchu o'i ben a'i bastwn ei hun yn golygu ei bod yn briodol i'r rheoleiddiwr weithredu i'w orfodi i wneud hynny.

Mae colli gofynion Cymraeg Radio Ceredigion yn dangos nad yw'r fframwaith cyfredol ar gyfer rheoleiddio radio masnachol yn addas at y diben. Mae model rheoleiddio Ofcom yn dibynnu ar ddewis rhwng darparwyr sy'n cystadlu. Nid yw'r model hwn yn gweithio pan nad yw'r farchnad, fel sy'n wir gyda chynnwys Cymraeg, yn cynnig unrhyw ddarparwyr o gwbl. **Dylai corff rheoleiddio fod â'r pŵer i fynnu cynnwys Cymraeg mewn trwyddedau radio masnachol yng Nghymru**.

Mae penderfyniad Llywodraeth y DU i ddad-reoleiddio radio masnachol wedi arwain at lastwreiddio cynnwys lleol, ac nid yw wedi creu budd i wrandawyr yng Nghymru. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn ailadrodd ein galwad a wnaed gyntaf yn ein hadroddiad yn 2018 ar radio yng Nghymru, i Lywodraeth y DU gyflwyno gofyniad rheoliadol ar gyfer "newyddion Cymreig ei natur" neu "newyddion Cymru gyfan", yn ogystal â'r newyddion lleol a'r newyddion ar lefel y DU sydd eisoes yn rhan o drwyddedau radio masnachol.<sup>72</sup> Rydym yn galw ar bwyllgor olynol yn y Chwched Senedd i graffu'n agos ar y sector hwn, gan alw am newidiadau rheoliadol priodol i wella gwasanaethau i gynulleidfaoedd yng Nghymru.

Fel y mae pethau ar hyn o bryd, rhaid i Ofcom weithredu'n unol â'r cyfarwyddiadau a roddir iddo gan Lywodraeth y DU drwy ddeddfwriaeth. Mae amheuaeth resymol ynghylch a fydd Llywodraeth y DU yn gweithredu i roi'r pwerau sydd eu hangen ar Ofcom i'w gwneud yn ofynnol bod radio masnachol yn darlledu cynnwys Cymraeg, o ystyried camau diweddar Llywodraeth y DU i ddad-reoleiddio radio masnachol, a'r ffaith iddi beidio â gweithredu yn dilyn ein cais blaenorol y dylai 'newyddion i Gymru gyfan' fod yn ofyniad rheoliadol ar

---

<sup>72</sup> Mae'r gofynion rheoliadol presennol ar gyfer radio masnachol yn cyfeirio at newyddion lleol a newyddion ar lefel y DU. Cynigiodd Pwyllgor Cyngori Ofcom "newyddion Cymru gyfan" fel cysyniad rheoliadol, lle y byddai trwyddedau radio masnachol yn cynnwys gofyniad i adrodd ar newyddion cenedlaethol Cymru: <https://business.senedd.wales/documents/s73961/RADIO01%20-%20Ofcom%20Advisory%20Committee.pdf>

gyfer radio masnachol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae angen i Lywodraeth y DU gydnabod anghenion penodol cynulleidfaoedd radio yng Nghymru. Dim ond atgyfnerthu'r ddadl bod angen ei phwerau ei hun ar Gymru dros reoleiddio radio y bydd peidio â gweithredu yn y maes hwn.

Mae radio masnachol, fel darlledwyr eraill, yn wynebu mwy o gystadleuaeth gan wasanaethau ffrydio byd-eang. Gan hynny, dylai rheoleiddwyr ystyried yr effaith ar werth masnachol trwydded FM wrth gyflwyno gofynion o ran y Gymraeg. Rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i newid y ddeddfwriaeth berthnasol i alluogi Ofcom i weithredu yn y maes hwn fel rhan o adolygiad ehangach o Ddeddf Cyfathrebu 2003.

**Ar hyn o bryd mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus Cymru yn wynebu cystadleuaeth anghymesur o du'r gwasanaethau ffrydio byd-eang.** Mae Netflix, Amazon a Disney yn cystadlu am wylwyr gyda'r BBC ac S4C, ac am refeniw hysbysebu gydag ITV. Mae gwerth yr amlygrwydd a roddir i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar y canllaw rhaglenni electronig yn lleihau o ddydd i ddydd.

Oherwydd hynny, rydym yn credu ei bod yn briodol **rheoleiddio gwasanaethau ffrydio byd-eang i gryfhau'r ecosystem cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.** Gallai rheoleiddio o'r fath gynnwys ardollau i ariannu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus, neu ofynion i ddarlledu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus. Nid troi'r llwyfannau hyn yn ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fyddai nod y gwaith rheoleiddio hwn, ond sicrhau darpariaeth barhaus o gynnwys o safon uchel ar gyfer cynulleidfaoedd Cymru.

**Argymhelliad 5.** Dylai fod gofyniad bod y drwydded Sianel 3 yng Nghymru yn cynhyrchu cyfran fwy o gynnwys rhwydwaith yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru gael rôl ffurfiol yn y broses hon.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth y DU ddeddfu i alluogi corff rheoleiddio priodol i'w gwneud yn ofynnol bod deiliaid trwyddedau radio masnachol yng Nghymru yn darlledu cynnwys iaith Gymraeg, ynghyd â chyflwyno categori rheoliadol ar gyfer "newyddion Cymru gyfan". Dylai Llywodraeth Cymru chwarae rôl ffurfiol wrth bennu'r gofynion hyn.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth y DU reoleiddio gwasanaethau ffrydio byd-eang i gryfhau'r ecosystem cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Gallai rheoleiddio o'r fath gynnwys ardollau i ariannu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus, neu ofynion i ddarlledu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus. Dylai Llywodraeth y DU ystyried

ymestyn ardollau i gynnwys cwmnïau ar-lein mawr eraill, fel peiriannau chwilio a safleoedd rhwydweithio cymdeithasol.

## 4. Llais dros Gymru

Mae eisoes gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd nifer o rolau ffurfiol ym maes darlledu, a gafwyd drwy broses y gellir cyfeirio ati fel datganoli graddol ("creeping devolution"). Eto i gyd, nid yw Llais Cymru wedi bod yn ddigon uchel, nac wedi'i glywed yn ddigon clir, i sicrhau'r cyfryngau sydd eu hangen ar Gymru.

**92.** O fewn y fframwaith cyfredol, mae nifer o gyrff yn ceisio siarad dros Gymru ar faterion darlledu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ofcom. Mae rheoleiddiwr cyfathrebu'r DU yn cynrychioli Cymru yn y prif ffyrdd a ganlyn:
  - Mae tîm Ofcom Cymru, sydd wedi'i leoli yng Nghaerdydd, yn cynrychioli Ofcom yng Nghymru a Chymru yn Ofcom – gan reoli perthnasoedd a chyfathrebu â'r cyhoedd ac ystod eang o randdeiliaid yn y diwydiant, gan gynnwys gwleidyddion, diwydiant a'r cyfryngau. Mae'r awdurdod i wneud penderfyniadau ar ran Ofcom yn nwylo ystod o endidau, ac mae dau ohonynt, sef y Bwrdd Cynnwys a'r prif Fwrdd, yn cynnwys cynrychiolwyr o Gymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr.
  - Mae Pwyllgor Cyngori Cymru yn cynghori Ofcom ynghylch buddiannau a barn pobl sy'n byw yng Nghymru, mewn perthynas â materion cyfathrebu.
  - Yr aelod o Fwrdd Ofcom dros Gymru. Y Bwrdd yw'r prif gorff penderfynu ar ran Ofcom, ac mae'n darparu cyfeiriad strategol y sefydliad.
  - Yr aelod o'r Bwrdd Cynnwys dros Gymru. Mae'r Bwrdd Cynnwys yn un o bwyllgorau'r prif Fwrdd ac mae'n pennu ac yn gorfodi gofynion ansawdd a safonau ar gyfer teledu a radio.
- Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Senedd. Sefydlwyd y pwyllgor hwn ar ddechrau'r Bumod Senedd, ac mae wedi cynnal ymchwiliadau i radio, S4C, cynrychiadau ffilm a theledu mawr, newyddiaduraeth newyddion, darlledu yn gyffredinol a'r ymchwiliad

hwn i ddatganoli darlledu. Mae hefyd yn cynnal sesiynau craffu rheolaidd gyda'r BBC, ITV ac S4C.

- Mae gan y Senedd Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag Ofcom sy'n rhwymo'r rheoleiddiwr i ymgynghori â 'phwyllgorau priodol' y Senedd ar ei Gynllun Blynyddol, gan ymddangos gerbron pwyllgorau'r Senedd a gosod ei adroddiad a'i gyfrifon blynyddol gerbron y Senedd. Mae gan y Senedd hefyd Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r BBC sy'n rhwymo'r darlledwr i osod ei adroddiadau a'i gyfrifon blynyddol gerbron y Senedd ac ymddangos gerbron pwyllgorau'r Senedd.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag Ofcom, sy'n rhwymo'r rheoleiddiwr i gyfarfod â Gweinidogion Cymru, ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar ei Gynllun Blynyddol ac yn rhoi pŵer i Lywodraeth Cymru benodi aelodau Cymru o fwrdd Ofcom. Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r BBC a Llywodraeth y DU sy'n rhwymo Llywodraeth y DU i ymgynghori â Llywodraeth Cymru wrth adolygu Siarter y BBC, ac i Lywodraeth Cymru osod y Siarter ddrafft a'r cytundeb fframwaith gerbron y Senedd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn buddsoddi mewn cynyrchiadau teledu a ffilm drwy nifer o gyfryngau buddsoddi.
- Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin. Mae'r Pwyllgor yn cynnal gwrandawiadau cyn penodi Cadeirydd bwrdd S4C ac yn craffu ar gyrrff perthnasol, fel y BBC a Llywodraeth y DU, ar faterion darlledu.

**93.** Disgrifiodd yr Athro Hutchinson gyfansoddiad esblygol y DU fel "asymmetrical quasi federalism".<sup>73</sup> Mae'n nodi: "The same might be said of the accountability mechanisms faced by broadcasters, and the super-regulator, Ofcom". Mae'n disgrifio dosbarthiad pŵer a gweithgarwch o ran darlledu yn y DU rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig fel datganoli graddol, neu "creeping devolution", ond yn dweud nad yw awydd cyrff y DU, gan gynnwys y llywodraeth, i gydgrynhoi pŵer wedi diflannu.

**94.** Mae'n mynd yn ei flaen i ddisgrifio'r hyn y mae'n ei ystyried yn gam yn ôl gan y BBC i gael gwared ar ei gynghorau cynulleidfau. Roedd y rhain yn cynnwys gwirfoddolwyr annibynnol, ac yn craffu ar waith y BBC yng nghaneddloedd cyfansoddol y DU:

---

<sup>73</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig yr Athro Hutchinson

Instead of Audience Councils we have sub-committees of the BBC Board, with no non-BBC representation on them. It really is quite strange that as political devolution has proceeded apace, the BBC has gone in the opposite direction. [...] Why the abolition of the successor bodies to the Broadcasting Councils, the Audience Councils, has not provoked a political backlash, given that it is completely contrary to the spirit of devolution, has greatly puzzled me.<sup>74</sup>

**95.** Gofynnodd Huw Jones, cyn-Gadeirydd S4C, pwy fydd yn siarad dros Gymru ar faterion darlledu, os yw'r pwnc yn dal i gael ei neilltuo i San Steffan.

Os nad oes yna reoleiddiwr Cymraeg, os nad ydy darlledu wedi'i ddatganoli fel cyfrifoldeb, ble mae llais Cymru ar faterion yn ymwneud â darlledu yn cael ei fynegi? Lle mae'r dystiolaeth yn cael ei chasglu, ynghyd ag edrych ar awgrymiadau Cymdeithas yr Iaith ynglŷn ag ariannu? Pwy sydd yna sy'n mynd i drilio i fewn i'r rheini i edrych ar faint ohonyn nhw sy'n stacio i fyny, a faint sydd ddim? Mae o'n teimlo i fi fel bod darlledu yn chwarae rhan mor sylfaenol mewn cymdeithas dyw hi ddim yn ddigon inni ddweud, 'Wel, dyw e ddim wedi'i ddatganoli, felly dyna ni, wnawn ni adael i'r drafodaeth ddigwydd yn rhywle arall.' Mi ddylai fod yna ryw ffordd o ddod â'r drafodaeth ynghyd, fel ein bod ni—. Achos mae yna duedd yng Nghymru inni fod yn adweithiol. Pan fo rhywbeth newydd yn digwydd yn y byd darlledu y tu allan, wedyn rydym ni efallai cael ein act at ei gilydd ac yn cael Aelodau Seneddol i ddadlau dros ariannu S4C ac ati, yn lle bod y gwaith yn digwydd yn barhaol, a bod yna ryw gonsensws yn cael ei greu a bod yna bwysau parhaol, pa un ai drwy Weinidogion neu mewn ffyrdd eraill, sydd yn mynegi deisyfiadau Cymru a hawliau Cymru.<sup>75</sup>

**96.** Dywedodd Euros Lewis o'r Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol fod y corff hwnnw yn "yn fudiad, yn drafodaeth, sydd wedi ymgynnull ynghyd i edrych ar y cwestiwn o ddarlledu mewn ffordd radical".<sup>76</sup> Ychwanegodd Angharad Mair fod y grŵp yn cwrdd "tair, pedair gwaith y flwyddyn er mwyn [...] trio chwilio am atebion i'r cwestiynau mawr sy'n ymwneud â darlledu a datganoli."<sup>77</sup>

**97.** Disgrifiodd Angharad Mair o'r Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol y ffaith nad oes corff sy'n siarad dros Gymru ar faterion darlledu:

---

<sup>74</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig yr Athro Hutchinson

<sup>75</sup> Paragraff 28, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Mawrth 2020

<sup>76</sup> Paragraff 6, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mawrth 2020

<sup>77</sup> Paragraff 8, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mawrth 2020



Os ŷn ni'n gweld adroddiadau gan Ofcom, prin iawn y maen nhw'n trafod Cymru o gwbl. Mae adroddiad diweddar fan hyn sydd wedi cael ei wneud gan Dŷ'r Arglwyddi yn edrych i mewn i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae'n drwchus, ond dwi'n meddwl bod y gair 'Cymru' yn cael ei grybwyll unwaith, efallai, a dyna dwi'n meddwl yw sail y broblem sydd gyda ni ar hyn o bryd.<sup>78</sup>

**98.** Yn ôl Martin Mumford o Nation Broadcasting, pe bai mwy o waith craffu ac ymyrraeth o ran y systemau sy'n bodoli eisoes, gallai hynny arwain at ganlyniad gwell<sup>79</sup> na newid pwy sy'n gyfrifol am y pŵer dros ddarlledu yn y DU.

**99.** Cyfeiriodd Llion Iwan, o'r cwmni cynhyrchu Cwmni Da, at waith y Senedd wrth graffu ar ddarlledu, gan ddweud:

Rydych chi'n craffu, rydych chi'n mynegi barn a chyhoeddi adroddiadau manwl ar y byd darlledu yma yng Nghymru. Felly, mae'r craffu yn digwydd yn barod. Dydy'r grym ddim wedi'i ddatganoli, wrth gwrs.<sup>80</sup>

**100.** Mae Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr yn galw am i Lywodraeth Cymru allu cyfrannu amcanion at waith cyrff y DU. Er enghraifft, mae'n dweud:

We propose that, subject to a vote in the Assembly, the Welsh Government should be able to contribute objectives for Wales in the overall requirements set out for the BBC in the next charter.<sup>81</sup>

**101.** Mae Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr hefyd yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru ddilyn yr un broses i gyfrannu at benderfyniadau Ofcom yn y dyfodol ar drwydded Sianel 3 ar gyfer Cymru.

### **Ein barn ni**

Mae llais Cymru ym maes rheoleiddio darlledu yn cael ei gynrychioli mewn nifer amrywiol o leoedd. Ond mae'r ffaith nad oes digon o gynnwys ar gael ar y cyfryngau i gynulleidfaoedd yng Nghymru yn awgrymu naill ai nad yw'r llais hwn yn ddigon uchel, neu nad yw'n cael ei glywed.

Ers sefydlu'r Pwyllgor hwn yn 2016, mae wedi cyhoeddi adroddiadau ar ddyfodol S4C, radio, darlledu yng Nghymru a newyddiaduraeth newyddion. Oni

---

<sup>78</sup> Paragraff 22, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mawrth 2020

<sup>79</sup> Paragraff 68, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Mawrth 2020

<sup>80</sup> Paragraff 133, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mawrth 2020

<sup>81</sup> Ymateb i ymgynghoriad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar ddatganoli darlledu

bai am y Pwyllgor hwn, nid yw'n glir pwy arall fyddai'n cyflawni'r math yma o waith dadansoddi manwl sy'n canolbwyntio ar Gymru. Rydym yn hyderus ein bod wedi codi lefel y ddadl yn y maes hwn, ac wedi lloio am newidiadau a gwelliannau sylweddol yn gyffredinol.

Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cychwyn ar gyfnod o newid seismig, wrth i rolau traddodiadol darlledu gwasanaeth cyhoeddus gael eu hailwerthuso yn sgil twf llwyfannau ffrydio ar-lein. Mae angen llais cryf ar Gymru yn y drafodaeth hon, gan fod anghenion cynulleidfaoedd Cymru yn unigryw. Felly, rydym yn cynnig yr awgrymiadau a ganlyn, fel isafswm i gryfhau llais Cymru yn y drafodaeth am ddyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus:

- **Dylai'r Chweched Senedd gynnwys pwyllgor sy'n trafod polisi'r cyfryngau fel rhan ganolog o'i gylch gwaith.** Mae gan y Senedd rolau ffurfiol, sydd wedi'u cynnwys yn ei memoranda cyd-ddealltwriaeth gydag Ofcom a'r BBC, i graffu ar y cyrff hyn. Gellid cyflawni'r rolau hyn yn fwy effeithiol pe bai Aelodau o'r Senedd yn cael cyfle i feithrin arbenigedd yn y materion sy'n wynebu darlledu sector cyhoeddus a'r cyfryngau yn fwy cyffredinol.
- Dylai'r Pwyllgor hwn gynnal gwrandawiadau cadarnhau, mewn cyfarfodydd ar y cyd â phwyllgorau perthnasol San Steffan os bydd angen, ynghyd â'r aelod o fwrdd Ofcom dros Gymru, aelod bwrdd y BBC yng Nghymru a chadeirydd bwrdd S4C. Os bydd rhagor o bwerau darlledu yn cael eu datganoli i'r Senedd, gallai'r pwyllgor hwn hefyd chwarae rhan yn y gwaith o reoleiddio ac ariannu darpariaeth y cyfryngau.
- Tra bod y trefniadau presennol yn parhau, **dylai Llywodraeth Cymru gael rôl ehangach wrth bennu telerau'r drwydded Sianel 3 nesaf i Gymru.** Gellid atgyfnerthu cyfraniad Llywodraeth Cymru drwy sefydlu grŵp arbenigol allanol i gynghori Llywodraeth Cymru ar faterion cyfryngau.
- Gallai'r grŵp allanol hwn hefyd roi cyngor i Lywodraeth Cymru ar sut i wella darpariaeth newyddiaduraeth newyddion.
- **Dylai'r BBC ddarparu fforwm olynol sy'n gwella ar y Cynghorau Cynulleidfa,** fel lle i gasglu barn cynulleidfaoedd yng Nghymru a chyfrannu at ddatblygu polisi'r BBC.

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Chweched Senedd gynnwys pwyllgor sy'n trafod polisi'r cyfryngau fel rhan ganolog o'i gylch gwaith. Dylai'r pwyllgor hwn gynnal gwrandawiadau cadarnhau, mewn cyfarfodydd ar y cyd â phwyllgorau perthnasol San Steffan os bydd angen, ynghyd â'r aelod o fwrdd Ofcom dros

Gymru, aelod bwrdd y BBC yng Nghymru a chadeirydd bwrdd S4C. Dylai ei raglen waith gynnwys craffu ar y cyrff hyn yn barhaus, yn ogystal â darlledwyr eraill, gan gynnwys deiliad y drwydded Sianel 3. Wrth i ragor o bwerau darlledu gael eu datganoli i'r Senedd, gallai'r pwyllgor hwn hefyd chwarae rhan yn y gwaith o reoleiddio ac ariannu darpariaeth y cyfryngau.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru gael rôl ehangach wrth bennu telerau'r drwydded Sianel 3 nesaf i Gymru.

**Argymhelliad 10.** Dylai'r BBC ddarparu fforwm olynol sy'n gwella ar y Cynghorau Cynulleidfa, fel lle i gasglu barn cynulleidfaoedd yng Nghymru a chyfrannu at ddatblygu polisi'r BBC.

## Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad          | Enw a Sefydliad                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
|------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 20 Tachwedd 2019 | <b>Angharad Mair</b> ,<br>Tinopolis Cymru<br><b>Caitriona Noonan</b> ,<br>Prifysgol Caerdydd<br><b>Dr Ruth McElroy</b> ,<br>Prifysgol De Cymru<br><b>Gareth Williams</b> ,<br>Rondo Media<br><b>Hywel William</b> ,<br>Pwyllgor Cynggori Cymru, Ofcom<br><b>Robert Andrews</b> ,<br>Ofcom<br><b>Kevin Bakhurst</b> ,<br>Ofcom<br><b>Llion Iwan</b> ,<br>Cwmni Da<br><b>Martyn Ingram</b> ,<br>Made in Wales |
| 22 Ionawr 2020   | <b>Magnus Brooke</b> ,<br>ITV<br><b>Phil Henfrey</b> ,<br>ITV Cymru<br><b>Owen Evans</b> ,<br>S4C<br><b>Rhodri Talfan Davies</b> ,<br>BBC Cymru                                                                                                                                                                                                                                                             |
| 5 Mawrth 2020    | <b>Martin Mumford</b> ,<br>Nation Broadcasting<br><b>Huw Jones</b> ,<br>Cyn-gadeirydd Bwrdd ac Awdurdod S4C<br><b>Justin Lewis</b> ,<br>Prifysgol Caerdydd<br><b>Colin Nosworthy</b> ,<br>Cymdeithas yr Iaith Gymraeg                                                                                                                                                                                       |

| Dyddiad               | Enw a Sefydliad                                                                                                                                                                 |
|-----------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                       | <b>Aled Powell,</b><br>Cymdeithas yr Iaith Gymraeg<br><b>Heledd Gwyndaf,</b><br>Cymdeithas yr Iaith Gymraeg                                                                     |
| <b>11 Mawrth 2020</b> | <b>Angharad Mair,</b><br>Tinopolis Cymru<br><b>Euros Lewis,</b><br>y Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol<br><b>Llion Iwan,</b><br>Cwmni Da<br><b>Martyn Ingram,</b><br>Made in Wales |

## Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod     | Sefydliad                                             |
|---------------|-------------------------------------------------------|
| <b>DoB 01</b> | Prifysgol Caerdydd (Saesneg yn unig)                  |
| <b>DoB 02</b> | Ymateb gan unigolyn                                   |
| <b>DoB 03</b> | Ymateb gan unigolyn                                   |
| <b>DoB 04</b> | ITV Cymru (Saesneg yn unig)                           |
| <b>DoB 05</b> | Nation Broadcasting (Saesneg yn unig)                 |
| <b>DoB 06</b> | Mentrau Iaith Cymru                                   |
| <b>DoB 07</b> | Cyngor Sir Gâr                                        |
| <b>DoB 08</b> | Radiocentre (Saesneg yn unig)                         |
| <b>DoB 09</b> | Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru                     |
| <b>DoB 10</b> | Y Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol                      |
| <b>DoB 11</b> | Cylch yr Iaith                                        |
| <b>DoB 12</b> | Merched y Wawr                                        |
| <b>DoB 13</b> | Mudiad Meithrin                                       |
| <b>DoB 14</b> | Ymateb gan unigolyn                                   |
| <b>DoB 15</b> | Ymateb gan unigolyn (Saesneg yn unig)                 |
| <b>DoB 16</b> | Cymdeithas yr Iaith Gymraeg                           |
| <b>DoB 17</b> | Equity Wales (Saesneg yn unig)                        |
| <b>DoB 18</b> | Ymateb gan unigolyn                                   |
| <b>DoB 19</b> | Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr (Saesneg yn unig) |
| <b>DoB 20</b> | Ymateb gan unigolyn                                   |
| <b>DoB 21</b> | Ymateb gan unigolyn (Saesneg yn unig)                 |
| <b>DoB 22</b> | Ymateb gan unigolyn                                   |
| <b>DoB 23</b> | BBC Cymru                                             |
| <b>DoB 24</b> | Ymateb gan unigolion                                  |

| Cyfeirnod | Sefydliad           |
|-----------|---------------------|
| DoB 25    | Ymateb gan unigolyn |